



St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College



**ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN
A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2024**

CYNNWYS

Rhif tudalen

Manylion cyfeirio a gweinyddol	1
Adroddiad y Corff Llywodraethu	2
Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	10
Datganiad ar Reoleidd-dra, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth y coleg	17
Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethu	18
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gorff Llywodraethol Coleg Catholig Dewi Sant	19
Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	23
Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	24
Mantolen ar 31 Gorffennaf	25
Datganiad Llif Arian	26
Dadansoddiad Dyled Net	27
Nodiadau i'r Cyfrifon	28-45

Manylion cyfeirio a gweinyddol

Bwrdd y Llywodraethwyr

Rhoddir rhestr lawn o'r Llywodraethwyr ar dudalennau 11-13 y datganiadau ariannol hyn.

Clerc y Corff Llywodraethu - Mrs Helen Fisher

Personél rheoli allweddol

Geraint Williams - Pennaeth; Swyddog Cyfrifo

Lisa Newman - Dirprwy Bennaeth

Swyddfa Gofrestredig

Coleg Catholig Dewi Sant

Heol Tŷ Gwyn

Pen-y-lan

Caerdydd

CF23 5QD

Cynghorwyr proffesiynol

Archwilwyr datganiadau ariannol a chyfrifwyr adrodd:

Forvis Mazars LLP

90 Victoria Street

Bryste

BS1 6DP

Archwilwyr mewnol:

TIAA

Artillery House

Fort Fareham

Newgate Lane

Fareham

PO14 1AH

Bancwyr:

Barclays Corporate Bank plc

3ydd Llawr

Windsor Court

3 Plas Windsor

Caerdydd

CF10 3BX

Santander Corporate Banking Centre

Llawr 1af

9 Heol y Frenhines

Caerdydd

CF10 2UD

Cyfreithwyr:

Eversheds Sutherland (International) LLP

1 Sgwâr Callaghan

Caerdydd

CF10 5BT

Adroddiad y Corff Llywodraethu

AMCANION A STRATEGAETH:

Mae aelodau'r Corff Llywodraethu yn cyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024.

Statws cyfreithiol

Sefydlwyd y coleg o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 er mwyn cynnal Coleg Catholig Dewi Sant. Mae'r coleg yn elusen eithriedig at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf Elusennau 2011. Sefydlwyd y Corff Llywodraethu yng Nghymru.

Datganiad Cenhadaeth

**Coleg Catholig i'r gymuned,
sy'n ceisio darganfod a gwireddu llawn potensial
pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch
wedi'i ysbrydoli gan Grist.**

Ein Hegwyddorion Arweiniol:

Canolbwynt ein ffydd Gatholig
Gwerth cynhenid ac unigrywiaeth pob unigolyn, waeth beth fo'i ryw, ethnigrwydd neu gred grefyddol
Mynd ar drywydd potensial llawn yr unigolyn
Cynwysoldeb
Didwylledd
Uniondeb
Edifeirwch
Trugaredd
Maddeuant

Mae ysbryd yr Efengyl wrth galon ein ffordd o fyw, ein perthnasoedd a'n cymuned. Mae gennym ofal am ddatblygiad y person cyfan ac unigrywiaeth yr unigolyn ac rydym yn ymdrechu am y disgwyliadau uchaf o ran twf a chyflawniad personol.

Budd Cyhoeddus

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn elusen eithriedig o dan Ran 3 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn cael ei rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Mae aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen, wedi'u datgelu ar dudalennau 11-13.

- Wrth osod ac adolygu amcanion strategol y coleg, mae'r Corff Llywodraethu wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn arbennig i'w ganllawiau atodol ar hyrwyddo addysg. Mae'r canllaw yn nodi'r gofyniad bod yn rhaid i bob sefydliad sy'n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos, yn benodol, bod eu hadnoddau er budd y cyhoedd.
- Wrth gyflawni ei genhadaeth mae'r coleg yn darparu'r buddion cyhoeddus adnabyddadwy canlynol trwy hyrwyddo addysg:

1. **Addysg o ansawdd uchel.**
2. **Ehangu cyfranogiad a mynd i'r afael â gwaharddiadau cymdeithasol.**
3. **Rhagolygon cyflogaeth rhagorol i fyfyrwyr.**
4. **Systemau cefnogi myfyrwyr cryf.**

5. Cysylltiadau â chyflogwyr, diwydiant a masnach

Gweithredu Cynllun Strategol y Coleg 2021–2025

Mae Cynllun Strategol y Coleg, **‘Y Ffordd, Y Gwirionedd a’r Bywyd’**, yn cwmpasu’r cyfnod rhwng Awst 2021 a Gorffennaf 2025. Mae gan y Cynllun Strategol dair thema allweddol:

- **Y Ffordd: Arweinyddiaeth a Dilyniant**
- **Y Gwirionedd: Addysg y Person Cyfan**
- **Y Bywyd: Dyfodol Cynaliadwy**

Mae'r Corff Llywodraethu yn monitro perfformiad y coleg yn erbyn y cynlluniau hyn. Caiff y cynlluniau eu hadolygu a'u diweddarau bob blwyddyn.

Rydym wedi ymrwymo i anelu at ragoriaeth yn ein haddysg, dysgu a chanlyniadau. Byddwn yn sicrhau bod pob asesiad yn ddilys, yn ddibynadwy, yn deg, yn eglur ac yn amlwg, yn effeithlon, ac yn rhan annatod o ymagwedd y dysgwyr at ddysgu.

Byddwn yn parhau i ddatblygu cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (a elwid gynt yn gymhwyster Bagloriaeth Uwch Cymru), gan sicrhau bod themâu, gwerthoedd a rhinweddau Catholig wedi'u hymgorffori yn y cymhwyster.

Yng Ngholeg Catholig Dewi Sant, byddwn yn parhau i fanteisio ar dechnoleg ddigidol i wella a chyfoethogi profiadau dysgu ein dysgwyr.

Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod cyfleoedd i ddod ar draws yr Efengyl ac egwyddorion Addysg Gymdeithasol Gatholig yng nghyd-destun cyrsiau'r cwricwlwm, lle bo'r rhain yn berthnasol.

Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad UCAS priodol i'n dysgwr fel eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau prifysgol addas sydd ar gael iddynt. Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig Prentisiaethau Gradd, yn cael eu hamlygu ac yn cael statws cyfartal i ddysgwyr Lefel 3.

Byddwn yn gweithio gyda dysgwyr Lefel 1 a 2 i sicrhau eu bod yn cael cyngor a chefnogaeth dilyniant priodol.

Bydd dilyniant i gyrsiau lefelau uwch, cyflogaeth a hyfforddiant yn cael ei amlygu.

Mae Coleg Dewi Sant wedi ymrwymo i gau'r bwlch addysgol, boed hynny ar sail rhyw, dosbarth neu ethnigrwydd.

Bydd y Coleg yn parhau i ddefnyddio mecanweithiau gwella ansawdd i nodi is-grwpiau sy'n tan berfformio.

Bydd Coleg Catholig Dewi Sant yn darparu gofal bugeiliol ac arweiniad o ansawdd uchel i bob dysgwr dan arweiniad tîm o diwtoriaid bugeiliol a Staff Cefnogi Dysgwyr ac adnoddau.

Mewn ymateb i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018) newydd, bydd Coleg Catholig Dewi Sant yn sicrhau bod holl ddysgwyr ADY y Coleg yn cael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu llawn botensial.

Bydd y Coleg yn hyrwyddo lles a gwytnwch trwy weithredu Fframwaith Llesiant Coleg Dewi Sant.

Bydd tîm diogelu Coleg Catholig Dewi Sant, gan weithio ochr yn ochr ag asiantaethau allanol, yn creu amgylchedd diogel i ddysgwyr trwy weithredu'n brydlon ar unrhyw fater diogelu a adroddir gan unrhyw randdeiliaid. Bydd y tîm diogelu yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol dealedig mewn lle fel bod holl aelodau cymuned y Coleg yn gwybod sut i ymddwyn ac ymateb i bryderon diogelu.

Bydd y Rhaglen Anrhydedd yng Ngholeg Catholig Dewi Sant yn parhau i ddarparu rhaglen fugeiliol arbenigol ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog.

Trwy ein rhaglen Myfyrdod Ysbrydol, byddwn yn gwahodd ein pobl ifanc i ymgysylltu â ffydd yn hytrach na bod yn dderbynwyr goddefol o draddodiad a gyflwynir iddynt. Rydym yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio'r berthynas rhwng rheswm a ffydd a thrwy hynny dynnu ein dysgwyr yn nes at y Gwirionedd.

Bydd dysgwyr yn parhau i fyfrio ar yr alwad i wasanaethu'r tlawd a'r mymlol trwy brosiectau 'ffydd ar waith' fel rhan o'r Rhaglen Crefydd a Bywyd. Mae'r prosiectau hyn yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddod ar draws materion yn y gymdeithas ehangach, o raddfa leol i raddfa fyd-eang.

Bydd ein Cymdeithas Gatholig a Chyfeillion yn chwarae rhan allweddol yng Ngholeg Dewi Sant trwy hyrwyddo hunaniaeth ac ethos Catholig o fewn y gymuned.

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn anelu at fod yn goleg sy'n wirioneddol ddwyieithog. Fel rhan o'i gyfraniad i ddiwylliant a chymdeithas Cymru, bydd Coleg Dewi Sant yn integreiddio a dathlu'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar y cwrwlwm a bywyd y coleg, trwy ei staff a'i dysgwyr.

Elfen allweddol o Fframwaith Profiad Myfyrwyr y Coleg yng Ngholeg Dewi Sant yw llais y dysgwr. Bydd dysgwyr yn parhau i gael llais drwy ein system Cynrychiolwyr Myfyrwyr ac arolygon myfyrwyr.

Bydd Coleg Catholig Dewi Sant yn cydweithio'n agosach â'i blwyfi ac ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig.

Amcanion ariannol

Amcanion ariannol y coleg yw:

1. Cyflawni sicrwydd ariannol hir-dymor a chyfateb adnoddau â Themâu Allweddol y Coleg.
2. Darparu sail gyson ar gyfer gwerthuso dewisiadau amgen strategol a datblygu cynllunio ariannol a rheoli risg effeithiol.
3. Darparu amgylchedd dysgu effeithlon o'r radd flaenaf i fyfyrwyr a staff i fodloni amcanion dysgu ac adnoddau presennol ac yn y dyfodol trwy ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
4. Cynllunio a rheoli ariannu datblygiadau coleg.
5. Darparu sail gyson ar gyfer gwerthuso dewisiadau amgen strategol a datblygu cynllunio ariannol a rheoli risg effeithiol.

Dangosyddion perfformiad

Mae dangosyddion perfformiad ariannol wedi'u cynnwys yn y strategaeth ariannol gyda nifer ohonynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon rheoli misol a'r Cofnod Cyllid blyneddol sy'n cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru. Mae dangosyddion perfformiad anariannol yn cynnwys:

1. **Targedau recriwtio.**
2. **Monitro targedau cyfradd trosi ymgeiswyr hyd at gofrestru.**
3. **Monitro cyfraddau llwyddiant ar lefel cwrs, rhaglen a sefydliad.**
4. **Monitro perfformiad yn ôl categori gradd ar lefel cwrs a sefydliadol.**
5. **Data cyrchfannau dysgwyr.**
6. **Ymddygiad myfyrwyr.**
7. **Adroddiadau ac arolygon boddhad myfyrwyr a rhieni.**
8. **Adnoddau dynol.**

Y prif ddangosyddion perfformiad ariannol allweddol sy'n rhan o'r strategaeth ariannol yw:

Dangosydd perfformiad allweddol	Gwirioneddol 2023/24	Gwirioneddol 2022/23
Enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad fel canran o incwm (Targed o 4%)	7.9%	7.5%
Gwarged gweithredol fel canran o gyfanswm yr incwm – Targed 1%	2.3%	1.7%
Costau staff fel canran o gyfanswm yr incwm – Targed o 70%	69.6%	70.2%
Asedau cyfredol/rhwymedigaethau cyfredol – Targed 2.0	2.01	1.4
Diwrnodau arian parod i gyfanswm gwariant – Targed o leiafswm o 35 diwrnod	118	87
Nifer cyfartalog o ddyddiau i dalu anfoneb pryniant – Targed i fod yn ddim mwy na 30 diwrnod	20.14	20.53
Nifer cyfartalog o ddyddiau i dderbyn taliad o anfoneb gwerthiant – Targed i fod yn llai na 45 diwrnod	12.83	40.55

DATBLYGU A PHERFFORMIAD

Canlyniadau ariannol

Cynhyrchodd y coleg wagedd cyn enillion a cholledion eraill o £263,986 yn 2023/24 (2022/23 gwagedd o £191,821).

Ers cyflwyno FRS102, mae gwerth y cofnodion anariannol sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cynyddu., sy'n gallu gwneud sefyllfa sylfaenol gweithrediadau'r coleg yn anodd ei ddirnad. O ganlyniad, mae adroddiadau rheoli yn symud i fwrdd o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn tuag at Enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad.

Yr enillion actiwaraid mewn perthynas â chynlluniau pensiwn oedd £26,000 (2022/23 £1,611,000).

Cyfanswm yr ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol yn ystod y flwyddyn oedd £3,513,781. Rhannwyd hyn rhwng adeiladau

£13,000 Offer Cyfrifiadur £95,908, Offer Arall £1,560, Gosodion a Ffitiadau £2,983 ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £3,400,330.

Y prif brosiect ar gyfer y flwyddyn oedd adeiladu'r bloc addysgu newydd. Denodd y cyllid hwn mewn perthynas ag Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif gyllid o 85% o gyfanswm y costau adeiladu o £6.9m. Cwblhawyd gwaith ar y bloc addysgu newydd yng ngwanwyn 2024.

Mae'r coleg yn dibynnu'n sylweddol ar Lywodraeth Cymru am ei brif ffynhonnell gyllid, yn bennaf o grantiau rheolaidd. Yn 2023/24, darparodd Llywodraeth Cymru 92% (2022/23 92%) o gyfanswm incwm y coleg.

Polisiâu ac amcanion y Trysorlys

Rheolaeth y Trysorlys yw rheoli llif arian y coleg a'i fancio; rheolaeth effeithiol ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny. Nid oes gan y coleg unrhyw drafodion marchnad arian a marchnad gyfalaf.

Mae gan y coleg bolisi rheoli trysorlys ar wahân ar waith.

Awdurdodir benthycu tymor byr at ddibenion refeniw dros dro gan y Swyddog Cyfrifo. Mae angen awdurdodiad y Corff Llywodraethu ar gyfer pob benthyciad arall a bydd yn cydymffurfio â gofynion y Memorandwm Ariannol.

Llif arian a hylifedd

Bu all-lif arian parod o weithgareddau gweithredol (gan gynnwys derbyniadau grant) o £688,991 (2022/23 £1,662,028) a chynnydd net mewn arian parod ac arian cyfatebol yn ystod y flwyddyn o £881,391 (2022/23 (£268,065)) sy'n unol â'r EBITDA ar gyfer y flwyddyn.

Mae maint cyfanswm benthyciadau'r coleg a'i ddull o ymdrin â chyfraddau llog wedi'u cyfrifo i sicrhau clustog resymol rhwng cyfanswm cost gwasanaethu dyled a llif arian gweithredu. Yn ystod y flwyddyn, rhagorwyd ar y ffin hon yn gyfforddus.

Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Nid oes gan y coleg Bolisi Cronfeydd Wrth Gefn ffurfiol ond mae'n cydnabod pwysigrwydd cronfeydd wrth gefn yn sefydlogrwydd ariannol unrhyw sefydliad ac yn sicrhau bod cronfeydd arian parod digonol wrth gefn i gefnogi gweithgareddau craidd y coleg.

Ar ddyddiad y fantolen, mae balans positif ar y gronfa Incwm a Gwariant o £4,640,064 (2022/23 £4,429,407).

Mae'r sefyllfa well hon wedi bod o ganlyniad i'r sefyllfa gadarnhaol yng ngwerth teg asedau yn adroddiad FRS 102 am y cyfnod yn diweddu 31 Gorffennaf 2024.

DATBLYGIAD A PHERFFORMIAD PRESENNOL AC YN Y DYFODOL

Niferoedd myfyrwyr

Yn 2023/24 mae'r coleg wedi cyflawni gweithgaredd ar 98.76% o'i darged ariannu. Nid oes hawliad yn ôl ar ddyraniadau cyllid amser llawn er bod unrhyw danberfformiad yn cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r blynyddoedd canlynol. Prif ddyraniad cyllid y corff cyllido oedd £8,419,329 (2022/23 £7,686,021). Ar gyfer 2023/24 roedd gan y coleg tua 1,551 o fyfyrwyr cyllidadwy ar y gofrestr ar ryw adeg o'r flwyddyn academaidd.

Gwerth LAP cyfartalog myfyrwyr cyllidadwy oedd £4,719. Mae hyn gryn dipyn yn llai na chyfartaledd y sector ond mae'n ganlyniad i'r ffaith bod gan Goleg Dewi Sant ddarpariaeth alwedigaethol gymharol fach o gymharu â chyfartaledd y sector.

Cyflawniadau myfyrwyr

Mae dangosyddion perfformiad myfyrwyr diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23, mae meincnodau cyhoeddus yn dangos bod y coleg yn 1^{af} o ran % o fyfyrwyr yn cyflawni 3 A*-A yn Safon Uwch, 1^{af} am 3 A*-C yn Safon Uwch ac 2^{il} am fyfyrwyr sy'n cyflawni 3 A*-E - mae pob un yn fesurau 2 flynedd. Gwelodd 2023-24 y flwyddyn gyntaf o arholiadau ffurfiol heb i fyfyrwyr gael rhybudd ymlaen llaw o rai pynciau arholiad (yn dilyn pandemig 2019).

Ar gyfer 2023/24, roedd 31.4% o raddau A2 yn A*-A, roedd 78.6% o raddau yn A*-C a 98.5% o raddau yn A*-E. Roedd yr holl ffiniau graddau hyn uwchlaw'r cymaryddion cenedlaethol.

Datblygiadau Cwricwlwm

Mae gan y Coleg ddull cynhwysol o recriwtio, cynllunio'r cwricwlwm ac addysgu a dysgu. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy yn enwedig llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol i sicrhau mynediad i'r cwricwlwm perthnasol ar lefel briodol. Caiff dysgwyr eu harwain a'u cefnogi trwy lwybrau dilyniant dysgu priodol gyda'r bwriad o alluogi pob dysgwr unigol i gyflawni ei llawn botensial. Rhoddir pwyslais cryf ar ddarparu ystod eang o gyrsiau Safon Uwch ac UG o ansawdd uchel, ochr yn ochr â chynnig galwedigaethol cyffredinol cryf ar Lefel 3. Mae'r Coleg wedi ailgyflwyno cwrs Lefel 1 ac mae wedi newid ei ddarpariaeth lefel 2 i fodloni anghenion myfyrwyr yn fwy priodol. Ni fydd y myfyrwyr hyn wedi cyrraedd y trothwy i symud ymlaen i gyrsiau Lefel 3, ond mae'r cyrsiau'n darparu llwybrau dilyniant cydlynol. Mae ailsefyll arholiadau TGAU ar gael i ddysgwyr mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Mae'r Coleg yn gwneud defnydd da o gyllid prosiect ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid Adferiad a Dilyniant Dysgwyr, cyllid Pontio, a chyllid Iechyd Meddwl a Llesiant, i alluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r cyllid hwn yn arbennig o bwysig i Goleg Dewi Sant oherwydd ei broffil cymdeithasol-economaidd.

Rhagolygon y dyfodol

Mae gan y Coleg ddealltwriaeth dda o'r Fframwaith Cwricwlwm Cymru newydd, yn benodol, y newidiadau i TGAU a'r cynnig 14-16 ehangach a'r effaith a gaiff hyn ar y cynnig ôl-16. Mae'r Coleg wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori â Chymwysterau Cymru a Cholegau Cymru.

Rhagorodd y Coleg ar ei darged recriwtio myfyrwyr ar gyfer 2024/25 gan tua 6%.

Mae'r Coleg yn parhau i ymgorffori ei strategaeth addysgu a dysgu, ei strategaeth ddysgu ddigidol a'i fesurau gwella ansawdd i wella'r profiad i ddysgwyr, i gynyddu ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac i wella deilliannau.

Perfformiad talu

Mae Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 1998, yn ei gwneud yn ofynnol i golegau, yn absenoldeb cytundeb i'r gwrthwyneb, wneud taliadau i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod i naill ai darparu nwyddau neu wasanaethau neu y dyddiad y derbyniwyd yr anfoneb. Y targed a osodwyd gan y Trysorlys ar gyfer talu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod yw 95%. Mae telerau talu cyflenwyr i'r coleg yn amrywio o 0 i 60 diwrnod. Yn ystod y cyfnod cyfrifo 1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024, talwyd 94% o anfonebau o fewn 30 diwrnod a 100% o fewn 60 diwrnod.

Ni chafodd y coleg unrhyw daliadau llog mewn perthynas â thaliadau hwyr ar gyfer y cyfnod hwn.

ADNODDAU

Ariannol

Mae gan y coleg £4,642,291 o asedau net, gan gynnwys dyled hirdymor o £26,667 (2022/23 £70,548).

Pobl

Mae'r coleg yn cyflogi 133 o bobl (a fynegir fel cyfwerth ag amser llawn), ac mae 79 ohonynt yn staff addysgu.

Enw da

Mae gan y coleg enw rhagorol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae cynnal brand o safon yn hanfodol i lwyddiant y coleg o ran denu myfyrwyr a datblygu perthnasoedd allanol.

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD:

Mae gan y coleg strategaethau datblygedig ar gyfer rheoli risg ac mae'n ymdrechu i ymgorffori rheoli risg ym mhopeth a wna. Mae prosesu rheoli risg wedi'u cynllunio i ddiogelu ei asedau, ei enw da a'i sefydlogrwydd ariannol. Y corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg ac mae ei ddull o reoli risgiau a rheolaethau mewnol yn cael ei esbonio yn y Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol.

Cedwir cofrestr risg ar lefel coleg a adolygir o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Archwilio ac yn fwy arferol bob tymor. Mae'r gofrestr risg yn nodi'r risgiau allweddol, y tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd, eu heffaith bosib ar y coleg a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru'r risgiau. Caiff risgiau eu blaenoriaethu gan ddefnyddio system sgorio gyson.

Amlinellir isod y prif ffactorau risg sy'n effeithio ar y coleg ynghyd â'r camau a gymerwyd i'w lleihau. Nid yw'r holl ffactorau o fewn rheolaeth y coleg. Gall ffactorau eraill ar wahân i'r rhai a restrir isod hefyd effeithio'n andwyol ar y coleg.

- **Methiant i reoli data**
Achos: systemau seiberddiogelwch annigonol; diffyg ymwybyddiaeth o sut i drin data gan staff; diffyg polisi a gweithdrefnau diogelwch data; mynediad at ddata heb ei gyfyngu.
Effaith: colli neu ddatgelu data personol neu fasnachol sensitif; torri deddfwriaeth diogelu data; niwed i enw da.
Rheolir y risg hon trwy gael polisiâu TG a GDPR a chynlluniau gweithredu yn eu lle sy'n cael eu cyfleu i staff a thrwy integreiddio seiberddiogelwch a GDPR i'r rhaglen datblygu staff gyda hyfforddiant gorfodol rheolaidd. Mae cyfyngiadau mynediad, copïau wrth gefn rheolaidd ar y safle ac oddi ar y safle/all-lein a sganio rheolaidd yn digwydd i leihau achosion o dorri diogelwch.
- **Methiant i reoli perfformiad y Coleg**
Achos: diffyg capasiti a gallu; diffyg data cywir, amserol ac o ansawdd; staff ddim yn ymwybodol pryd mae angen iddynt ddarparu data; gosod meini prawf mesur perfformiad gwael neu ddiffyg (targedau); fel coleg cynhwysol gall perfformiad myfyrwyr Coleg fod yn anodd ei reoli.
Effaith: gall olygu bod canlyniadau myfyrwyr yn llai na'r disgwyl; gallai gael effaith ariannol os bydd angen adnoddau ychwanegol i wella perfformiad; effaith ar asesiad Estyn; niwed i enw da rhanddeiliaid allweddol os nad yw perfformiad yn bodloni disgwyliadau.
Rheolir y risg hon trwy rannu meysydd swyddogaethol y Coleg yn adrannau a chyflwyno a gweithredu prosesau hunanasesu
- **Methiant i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiad parhad busnes (tân, llifogydd, tywydd garw, achos o bandemig).**
Achos: Diffyg dadansoddiad effaith parhad busnes; Diffyg cynllunio. Diffyg hyfforddiant ar gynlluniau y cytunwyd arnynt. Nid yw adeiladwaith neu ddyluniad adeiladau yn addas at y diben.
Effaith: Tarfu ar ddarpariaeth addysg; potensial i roi myfyrwyr, athrawon, rhieni ac ymwelwyr mewn perygl o niwed; niwed i enw da sy'n gysylltiedig ag ymateb gwael.
Rheolir y risg hon drwy gael cynllun wrth gefn TG ar gyfer cau'r coleg ynghyd â chynlluniau a pholisiâu cloi ar gyfer digwyddiad mawr mewn argyfwng tân ac adfer busnes. Caiff cynlluniau eu hymarfer yn rheolaidd a chaiff newidiadau eu cyfleu'n rheolaidd i staff a myfyrwyr.

PERTHNASAU RHANDEILIAID

Yn unol â cholegau eraill a phrifysgolion, mae gan Goleg Catholig Dewi Sant lawer o randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Myfyrwyr.
- Cyrff cyllido'r sector addysg.
- Staff.
- Rhieni/gwarcheidwaid
- Archesgobaeth Gatholig Rhufeinig Caerdydd.
- Cyflogwyr lleol (gyda chysylltiadau penodol).
- Awdurdodau Lleol.
- Y gymuned leol.
- Ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig.

- Sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch eraill.
- Undebau llafur.
- Cyrff proffesiynol.

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd y perthnasau hyn ac yn cyfathrebu â rhanddeiliaid yn rheolaidd.

Cydraddoldeb

Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy'n dysgu ac yn gweithio yma. Rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau mewn hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd neu gred ac oedran. Rydym yn ymdrechu'n galed i ddileu amodau sy'n rhoi pobl dan anfantais, a byddwn yn brwydro'n weithredol yn erbyn rhagfarn. Rhoddir adnoddau i'r polisi hwn, caiff ei weithredu a'i fonitro ar sail gynlluniedig. Cyhoeddir Polisi Cyfle Cyfartal y coleg ar fewnrwyd y coleg. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth blynyddol.

Mae'r coleg yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ac Amcanion Cydraddoldeb i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r coleg yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar bob polisi a gweithdrefn newydd ac yn cyhoeddi'r canlyniadau. Cynhelir asesiadau effaith cydraddoldeb hefyd ar gyfer polisïau a gweithdrefnau presennol ar sail blaenoriaeth.

Mae'r coleg yn ystyried yr holl geisiadau cyflogaeth gan bobl anabl, gan gadw doniau'r unigolion dan sylw mewn cof, ac yn gwarantu cyfswydd i unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Pan fydd gweithiwr presennol yn dod yn anabl, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cyflogaeth gyda'r coleg yn parhau. Polisi'r coleg yw darparu hyfforddiant, datblygiad gyrfa a chyfleoedd ar gyfer dyrchafiad, sydd, cyn belled ag y bo modd, yn darparu'r un cyfleoedd â rhai cyflogeion nad ydynt yn anabl.

Datganiad anabledd

Mae'r coleg yn ceisio cyflawni'r amcanion a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru):

- Mae gan y coleg Ganolfan Cymorth Dysgu, sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac yn trefnu cymorth i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anawsterau dysgu.
- Mae offer arbenigol y gall y coleg wneud ar gael i'w ddefnyddio gan fyfyrwyr ac mae ystod o dechnoleg gynorthwyol ar gael.
- Mae'r polisi derbyn ar gyfer pob myfyriwr ar gael ar wefan y coleg. Ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle o dan y polisi cwynion.
- Mae cynnig darpariaeth dysgu cyffredinol ac ychwanegol y coleg hefyd ar gael ar wefan y coleg.
- Mae yna gynorthwywyr cymorth dysgu a chynorthwywyr addysgu sy'n gallu darparu amrywiaeth o gymorth ar gyfer dysgu. Mae rhaglen o ddatblygiad staff i sicrhau y darperir lefel uchel o gefnogaeth briodol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anawsterau dysgu.
- Disgrifir cwnsela, gwasanaethau lles, gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth, cymorth llythrennedd a rhifedd, gweithdrefnau cwyno a disgyblu yn y Canllaw i Ddysgwyr, a gyhoeddir i bob myfyriwr.
- Mae tîm lles sydd hefyd yn darparu cymorth, ynghyd â thiwtor bugeiliol i bob myfyriwr.
- Mae gan y coleg Gofrestr Gymorth sy'n helpu i sicrhau cyfathrebu clir a gwybodaeth am anghenion dysgwyr i bob parti perthnasol.

Adrodd Amgylcheddol

Mae cynaliadwyedd yn allweddol i'r coleg gan ei fod yn cysylltu'n uniongyrchol â'n hethos. Fel sefydliad Catholig, rydym yn cael ein hysbrydoli a'n galw i weithredu gan Gylchlythyr *Laudato si* y Pab Ffrancis sy'n mynd i'r afael â'r angen i ofalu am ein cartref cyffredin, y ddaear. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd stiwardiaeth amgylcheddol

Rydym yn ceisio cyd-fynd â'r nodau a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar weithrediadau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd. Mae'r coleg yn gweithio tuag at gyflawni allyriadau sero net ac mae wedi bod yn lleihau ei ôl troed carbon. Mae hyn yn fwyaf gweladwy yn ein buddsoddiadau mewn seilwaith cynaliadwy, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi cynnwys:

- Gosod ffenestri a drysau cladin sy'n effeithlon o ran ynni ac inswleiddio to'r Prif Adeilad sydd wedi arwain at ostyngiad yn y defnydd o drydan ac wedi gwella lles myfyrwyr yn yr ardal hon.
- Mae araeau solar wedi'u gosod ar ein prif adeilad. Bydd y rhain a'r defnydd o ynni adnewyddadwy arall yn cael eu hehangu i adeiladau eraill.
- Cwblhawyd Canolfan Ddysgu George Stack yn ystod 2023/24. Ystyriwyd cynaliadwyedd drwy

gydol ei ddyluniad ac adeiladu a arweiniodd at gyflawni sgôr da iawn BREEAM. Daeth cyfraniadau sylweddol at hyn o osod araeau solar, to gwyrdd, pwyntiau gwefru cerbydau trydan a system draenio effaith isel.

- Adnewyddwyd cyfleusterau arlwygo'r coleg yn ystod haf 2024. Mae offer nwy wedi cael eu disodli gan offer trydanol, gan leihau allyriadau carbon.
- Mae cyfleusterau toiled newydd wedi'u gosod sy'n defnyddio mecanweithiau arbed dŵr, fel toiledau a thapiau llif isel.
- Mae rhaglen i osod goleuadau LED allyriadau isel ledled y coleg bron â'i chwblhau.
- Mae'r holl ynni a brynir drwy dariffau gwyrdd, fel rhan o gonsortwm Cyngor Caerdydd.
- Yn ogystal â'r buddsoddiadau hyn, mae'r coleg yn hyrwyddo cynaliadwyedd drwy:
 - Gyflwyno cynllun teithio i hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy, sy'n annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded i'r coleg. Mae hyn yn cael ei wella trwy ddarparu cynllun beicio i'r gwaith a'r cynllun prynu ceir trydan a gynlluniwyd. Mae'r mesurau hyn yn lleihau allyriadau anuniongyrchol ac yn cyfrannu at well iechyd.
 - Mae Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd y coleg, y mae ei aelodau'n cynnwys staff a myfyrwyr, yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu arferion cynaliadwyedd cyfredol a bwydo i'r broses gwneud penderfyniadau gydag atebion newydd i wella cynaliadwyedd.
 - Rydym yn gwella bioamrywiaeth y campws trwy integreiddio mannau gwyrdd i'w dirwedd. Mae cynlluniau'n cynnwys plannu rhywogaethau coed brodorol a chreu ardaloedd sy'n cefnogi bywyd gwyllt, gan gyfrannu at ddal carbon a darparu mannau ar gyfer myfyrwyr a dysgu.
 - Mae materion cynaliadwyedd eisoes wedi'u hintegreiddio'n dda mewn llawer o feysydd cwricwlwm.
 - Cynhaliodd y Launchpad, sef canolfan gyrfaoedd a chyrchfannau'r coleg, ffair Gyrfaoedd Gwyrdd yn ystod 2023/24 a bydd gyrfaoedd gwyrdd yn rhan o ddigwyddiadau'r dyfodol.
 - Anogir myfyrwyr i ymgysylltu â chynaliadwyedd o fewn cyrsiau a'r tu allan iddynt. Enillodd y tîm myfyrwyr a gymerodd ran yng Nghystadleuaeth Sgiliau Ysbrydoledig Sero Net Cymru yn 2023/24 y fedal Efydd am eu cais.
 - Mae gweithgareddau allgyrsiol megis y clwb Earthwise yn annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn cynaliadwyedd.
 - Bydd y coleg yn datblygu ardal o'r tiroedd i dyfu a dosbarthu cnydau bwyadwy. Mae hyn yn cyd-fynd â'n rhaglen Caplaniaeth sy'n pwysleisio'r angen i ofalu am y greadigaeth a'n cartref cyffredin.

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn cydnabod pwysigrwydd cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy ac mae wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau sero net. Byddwn yn cydweithio â mentrau lleol a chenedlaethol i rannu arferion gorau a chyfrannu at nodau hinsawdd ehangach i gefnogi Cymru sy'n ymwybodol o'r hinsawdd.

Datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r aelodau a oedd yn dal swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y coleg yn ymwybodol ohoni; a bod pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y coleg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd trwy orchymyn gan aelodau'r Corff Llywodraethu ar 5 Rhagfyr 2024 a llofnodwyd ar ei ran gan:



Christian Mahoney
Cadeirydd

Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Darperir y datganiad canlynol i alluogi darllenwyr adroddiad blynyddol a chyfrifon y coleg i gael gwell dealltwriaeth o'i strwythur llywodraethu a chyfreithiol. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Coleg Catholig Dewi Sant

Mae'r coleg yn ymdrechu i gynnal ei fusnes:

- yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth); a
- gan roi sylw dyledus i God Llywodraeth Corfforaethol y DU 2014 i'r graddau y mae'n berthnasol i'r sector addysg bellach.

Mae'r coleg wedi ymrwmo i arddangos arfer orau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Nid ydym wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac felly nid ydym yn ei gymhwyso. Fodd bynnag, rydym wedi adrodd ar ein trefniadau Llywodraethu Corfforaethol drwy dynnu ar yr arferion gorau sydd ar gael, gan gynnwys yr agweddau hynny ar God Llywodraethu Corfforaethol y DU yr ydym yn eu hystyried yn berthnasol i'r sector addysg bellach ac arfer gorau.

Mae'r coleg yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr at ddibenion Deddf Elusennau 2011, yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus a bod y datganiadau gofynnol mewn man arall yn y datganiadau ariannol hyn.

Y Corff Llywodraethu

Rhestrwyd yr aelodau a wasanaethodd ar y Corff Llywodraethu yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r adroddiad hwn yn y tabl isod.

Enw	Dyddiad tymor penodiad cyntaf	Tymor swydd	Statws y penodiad	Pwyllgorau a wasanaethwyd a phresenoldeb
Mrs Edita Agha	1 Hydref 2022	2 flynedd	Rhiant	Archwilio a Risg 66.67% Corff Llywodraethu Llawn 33.33%
Mr Ian Brookfield	1 Medi 2017	4 blynedd	Sylfaen	Archwilio a Risg 100% Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd 33.33% Corff Llywodraethu Llawn 0%
Dr John Channon	1 Ebrill 2019	2 flynedd	Sylfaen yna symudodd i Cymunedol	Cyllid ac Adnoddau 60% Corff Llywodraethu Llawn 100%
Mr Stephen Drury	1 Tachwedd 2022	4 blynedd	Sylfaen	Archwilio a Risg 66.67% Corff Llywodraethu Llawn 100%
Mr John Edwards	1 Gorffennaf 2019	4 blynedd	Sylfaen (Is-Gadeirydd)	Tâl ac Arfarnu 100% Ethos a Diwylliant Catholig (Cadeirydd) 100% Chwilio a Llywodraethu 100% Corff Llywodraethu Llawn 100%
Mr Nigel Harris	1 Medi 2017	4 blynedd	Cyfetholedig	Cyllid ac Adnoddau (Cadeirydd) 100% Corff Llywodraethu Llawn 100%
Enw	Dyddiad tymor penodiad cyntaf	Tymor swydd	Statws y penodiad	Pwyllgorau a wasanaethwyd a phresenoldeb
Mr Charlie Wrightson	1 Tachwedd 2023	2 flynedd	Myfyriwr	Ethos a Diwylliant Catholig 33.33% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd 0% Corff Llywodraethu Llawn 66.67%

Coleg Catholig Dewi Sant

Ms Olivia McLaren	1 Ionawr 2020	2 flynedd	Staff	Archwilio a Risg 100% Corff Llywodraethu Llawn 66.67%
Mr Mark Leighfield	1 Ionawr 2004	Wedi ymddeol o CDS Ebrill 2024	Pennaeth	Ethos a Diwylliant Catholig 66.67% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd 100% Cyllid ac Adnoddau 80% Chwilio a Llywodraethu 100% Corff Llywodraethu Llawn 33.33%
Mr Geraint Williams	15 Mai 2024	-	Pennaeth	Ethos a Diwylliant Catholig 33.33% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd 0% Cyllid ac Adnoddau 20% Chwilio a Llywodraethu 0% Corff Llywodraethu Llawn 33.33%
Mr Justin McCarthy	1 Medi 2018	4 blynedd	Sylfaen	Archwilio a Risg (Cadeirydd) 100% Ethos a Diwylliant Catholig 100% Chwilio a Llywodraethu 100% Corff Llywodraethu Llawn 100%
Mr Christian Mahoney	1 Medi 2017	4 blynedd	Sylfaen (Cadeirydd)	Ethos a Diwylliant Catholig 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd 66.67% Cyllid ac Adnoddau 100% Tâl ac Arfarnu (Cadeirydd) 100% Chwilio a Llywodraethu (Cadeirydd) 100% Corff Llywodraethu Llawn 66.67%
Dr Jossy Mathew	1 Ionawr 2022	4 blynedd	Sylfaen	Cyllid ac Adnoddau 80% Corff Llywodraethu Llawn 66.67%
Mr David Stone	1 Ionawr 2016	4 blynedd	Sylfaen (wedi gadael)	Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd 33.33% Corff Llywodraethu Llawn 33.33%
Margaret Thorne	1 Hydref 2019	4 blynedd	Sylfaen	Ethos a Diwylliant Catholig 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd 66.67% Corff Llywodraethu Llawn 66.67%
Enw	Dyddiad tymor penodiad cyntaf	Tymor swydd	Statws y penodiad	Pwyllgorau a wasanaethwyd a phresenoldeb
Yr Athro Sally Power	1 Medi 2015	4 blynedd	Sylfaen	Cyllid ac Adnoddau 80% Tâl ac Arfarnu 100% Chwilio a Llywodraethu 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd (Cadeirydd) 100% Corff Llywodraethu Llawn 100%

Coleg Catholig Dewi Sant

Dr Daniel Waldron	1 Ionawr 2023	4 blynedd	Awdurdod Lleol	Corff Llywodraethu Llawn 33.33%
Mr Mike Horgan	Mai 2024 (dechreuwr newydd)	4 blynedd	Sylfaen	Corff Llywodraethu Llawn 33.33%
Mr Stephen Lord	1 Mehefin 2023	4 blynedd	Sylfaen	Archwilio a Risg 66.67% Corff Llywodraethu Llawn 100%
Gweithredodd Ms Helen Fisher fel Clerc i'r Corff Llywodraethu				

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu yw llunio barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.

Rhoddir gwybodaeth reolaidd ac amserol i'r Corff Llywodraethu am berfformiad ariannol cyffredinol y coleg ynghyd â gwybodaeth arall megis perfformiad yn erbyn targedau ariannu, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ansawdd a materion yn ymwneud â phersonél megis iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol. Cyfarfu'r Corff Llywodraethu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnal ei fusnes drwy nifer o bwyllgorau, sydd wedi'u cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu. Y pwyllgorau hyn yw:

- Archwilio a Risg
- Ethos a Diwylliant Catholig
- Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd a Gwella Ansawdd
- Cyllid ac Adnoddau
- Tâl ac Arfarnu
- Chwilio a Llywodraethu

Lle bo'n briodol, mae cofnodion llawn o'r holl gyfarfodydd, ac eithrio'r rhai y mae'r Corff Llywodraethu yn eu hystyried yn gyfrinachol, ar gael gan Glerc y Corff Llywodraethu yn:

Coleg Catholig Dewi Sant Heol
Tŷ Gwyn
Pen-y-lan
Caerdydd
CF23 5QD

Mae Clerc y Corff Llywodraethu yn cadw cofrestr o fuddiannau ariannol a phersonol y llywodraethwyr. Mae'r gofrestr ar gael i'w harchwilio yn y cyfeiriad uchod.

Mae'r holl lywodraethwyr yn gallu cymryd cyngor proffesiynol annibynnol er mwyn hyrwyddo eu dyletswyddau ar draul coleg ac mae ganddynt fynediad at Glerc y Corff Llywodraethu, sy'n gyfrifol i'r Bwrdd am sicrhau y cydymffurfir â'r holl weithdrefnau a rheoliadau perthnasol. Mae penodi, gwerthuso a diswyddo'r Clerc yn faterion i'r Corff Llywodraethu cyfan.

Darperir agendâu, papurau ac adroddiadau ffurfiol i lywodraethwyr mewn modd amserol, cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Darperir briffiau ar sail ad hoc.

Mae gan y Corff Llywodraethu elfen anweithredol gref ac annibynnol ac nid oes unrhyw unigolyn na grŵp yn dominyddu ei broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Corff Llywodraethu o'r farn bod pob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol ar reolwyr ac yn rhydd o unrhyw fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd yn sylweddol ag arfer eu barn annibynnol.

Mae rhaniad clir o ran cyfrifoldeb gan fod rolau'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifo ar wahân.

Penodiadau i'r Corff Llywodraethu

Penodir aelodau sylfaen gan Archesgobaeth Caerdydd; etholir myfyrwyr, staff a rhiant lywodraethwyr ac mae unrhyw benodiadau newydd eraill i'r Corff Llywodraethu yn fater i'w ystyried

Coleg Catholig Dewi Sant

gan y Corff Llywodraethu cyfan. Mae gan y Corff Llywodraethu Bwyllgor Chwilio a Llywodraethu, sy'n cynnwys tri aelod o'r Corff Llywodraethu, sy'n gyfrifol am ddewis ac enwebu unrhyw aelod newydd i'w ystyried gan y Corff Llywodraethu. Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

Penodir aelodau'r Corff Llywodraethu am gyfnod o ddim mwy na phedair blynedd.

Perfformiad y Corff Llywodraethu

Mae gwerthusiad ar gyfer 2023/24 wedi'i ystyried yng nghyd-destun:

- **Cefndir rheoleiddiol i lywodraethu yn y coleg**
Mae'r coleg wedi mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.
- **Cynlluniau strategol 2021-2025**

Cyfansoddiad newidiol aelodaeth y Corff Llywodraethu

Cyfansoddiad

- Mae 17 aelod o'r Corff Llywodraethu. Mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethu fel a ganlyn:
 - 10 Aelod Sylfaen
 - 1 Aelod Cyfetholedig
 - 1 Aelod Rhiant
 - 1 Aelod Myfyriwr
 - 1 Aelod Staff
 - 1 Aelod Awdurdod Lleol
 - 1 Aelod Cymunedol (yn wag ar ddechrau'r flwyddyn academaidd)
 - 1 Aelod sef y Pennaeth

Yn ystod y flwyddyn 1 Awst 2023 tan 31 Gorffennaf 2024 digwyddodd y newidiadau canlynol o fewn y Corff Llywodraethu:

Ymadawyr	Rheswm	Cyfanswm Hyd Gwasanaeth
Myfyriwr-lywodraethwr (Charlie Wrightson)	Diwedd amser yn CDS	1
Llywodraethwr Sylfaen (David Stone)	Ymddiswyddiad	2
Pennaeth (Mark Leighfield)	Wedi ymddeol o CDS	

Ymunwyr Newydd	Dyddiad Cychwyn
Llywodraethwr Sylfaen (Mike Horgan)	Mai 2024
Pennaeth (Geraint Williams)	Mai 2024
Myfyriwr-Llywodraethwr (Ameera Hussein)	Mai 2024

- Cwblhawyd y Gofrestr Flynyddol o Fuddiannau mewn pryd ar gyfer cyfarfod cyntaf y Corff Llywodraethu Llawn ar 6 Rhagfyr 2023.
- Diweddarwyd Llawlyfr y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn ac mae'n cael ei ddefnyddio.
- Cafodd Pwyllgorau'r Corff Llywodraethu a sefydlwyd gan yr Offer ac Erthyglau Llywodraethu, yn 2005/06, eu cadarnhau yn 2012/13 a'u hadolygu ym mis Medi 2022.

Cyflawni dyletswyddau statudol y Corff Llywodraethu fel y nodir yn yr Offer ac Erthyglau Llywodraethu

Coleg Catholig Dewi Sant

Mae gwerthusiad ymarferol o waith y Corff Llywodraethu yn 2023/24 yn dangos ei fod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a gadarnhawyd gan Archwilio Mewnol ac Allanol.

Mae'r Corff Llywodraethu hefyd wedi rhoi cyfrif am ddiddyledrwydd ariannol y coleg trwy'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (cyfarfu chwe gwaith) a'r Pwyllgor Archwilio (cyfarfu bedair gwaith). Derbyniodd y Corff Llywodraethu Llawn Adroddiadau Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Archwilio mewn tri o'u cyfarfodydd a oedd yn cynnwys adroddiad ar agweddau o Reolaethau Ariannol, Adroddiad Archwilio Allanol ac adroddiadau Cyfrifon Rheoli rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Cyllid i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym mhob un o'r pedwar cyfarfod.

Pwyllgor Tâl

Drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024 roedd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y coleg yn cynnwys tri aelod o'r Corff Llywodraethu. Cyfrifoldebau'r Pwyllgor yw gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar dâl a buddion y Swyddog Cyfrifo a phersonél rheoli allweddol eraill.

Mae manylion y taliadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 wedi'u nodi yn nodyn 7 i'r datganiadau ariannol.

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pum aelod o'r Corff Llywodraethu (ac eithrio'r Swyddog Cyfrifo a'r Cadeirydd). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bob tymor ac mae'n darparu fforwm ar gyfer adrodd gan gyfrifwyr adroddiadau mewnol ac archwilwyr datganiadau ariannol y coleg, sydd â mynediad i'r Pwyllgor ar gyfer trafodaeth annibynnol, heb bresenoldeb rheolwyr y coleg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan y prif gyrff cyllido AB fel y maent yn effeithio ar fusnes y coleg.

Mae archwilwyr mewnol y coleg yn adolygu'r systemau rheolaeth fewnol, rheolaethau rheoli risg a phrosesau llywodraethu yn unol â chynllun mewnbyn cytûn ac yn adrodd ar eu canfyddiadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ac mae'r archwiliad mewnol yn cynnal adolygiadau dilynol cyfnodol i sicrhau bod argymhellion o'r fath wedi'u gweithredu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cynghori'r Corff Llywodraethu ar benodiad cyfrifwyr mewnol sy'n adrodd ac archwilwyr datganiadau ariannol a'u tâl am waith archwilio a gwaith nad yw'n waith archwilio yn ogystal ag adrodd yn flynyddol i'r Corff Llywodraethu.

Rheolaeth fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol yn y pen draw am system rheolaeth fewnol y coleg ac am adolygu ei heffeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae system o'r fath wedi'i chynllunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethiant i gyflawni amcanion busnes a gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r Pennaeth, fel Swyddog Cyfrifo, am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y coleg, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau y mae'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Coleg Catholig Dewi Sant a'r corff cyllido, Llywodraeth Cymru. Mae ef hefyd yn gyfrifol am adrodd i'r Corff Llywodraethu am unrhyw wendidau neu doriadau perthnasol mewn rheolaeth fewnol.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithlonrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y coleg, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Ngholeg Catholig Dewi Sant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad flynyddol a'r cyfrifon.

Coleg Catholig Dewi Sant

Y gallu i drin risg

Mae'r Corff Llywodraethu wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r coleg yn agored iddynt ynghyd â'r rheolaethau gweithredu, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r Corff Llywodraethu o'r farn bod proses barhaus ffurfiol ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y coleg wedi bod yn ei lle ar gyfer y cyfnod yn gorffen 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Adolygir y broses hon yn rheolaidd gan y Corff Llywodraethu.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli rheolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol, sy'n cael ei hadolygu a'i chytuno gan y Corff Llywodraethu.
- Adolygiadau rheolaidd gan y Corff Llywodraethu o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol sy'n dangos perfformiad ariannol yn erbyn rhagolygon.
- Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall.
- Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir.
- Mabwysiadu disgyblaeth rheoli prosiect ffurfiol, lle bo'n briodol.

Mae gan Goleg Catholig Dewi Sant wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn unol â gofynion Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach Llywodraeth Cymru. Caiff gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r coleg yn agored iddynt, ac mae cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Mae'r dadansoddiad o risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. O leiaf yn flynyddol, mae'r archwilydd mewnol yn rhoi adroddiad i'r Corff Llywodraethu ar weithgarwch archwilio mewnol yn y coleg. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwilydd mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risg, rheolaethau a phrosesau llywodraethu'r coleg.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei lywio gan:

- Waith yr archwilwyr mewnol.
- Gwaith y rheolwyr gweithredol yn y coleg sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol.
- Sylwadau a wnaed gan archwilwyr datganiadau ariannol y coleg, y cyfrifydd adrodd ar gyfer sicrwydd rheoleidd-dra, yr archwilwyr cyllid penodedig (ar gyfer colegau sy'n destun archwiliad cyllid) yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwyllo gwaith yr archwilydd mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill, ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion rheoli posib a ddaw i'w sylw trwy fecanweithiau rhybudd cynnar, sydd wedi'u gwreiddio yn yr adrannau ac wedi'u hatgyfnerthu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwilio mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae agenda'r Corff Llywodraethu yn cynnwys eitem reolaidd ar gyfer ystyried risg a rheolaeth ac yn derbyn adroddiadau ar hynny gan yr uwch dîm arwain a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyslais ar gael y graddau perthnasol o sicrwydd ac nid adrodd drwy eithriad yn unig. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd y Corff Llywodraethu yr asesiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 drwy ystyried dogfennaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r

Coleg Catholig Dewi Sant

Archwilwyr Mewnol a chan ystyried digwyddiadau ers 31 Gorffennaf 2023. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd eto ym mis Tachwedd 2024.

Yn seiliedig ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Cyfrifo, mae'r Corff Llywodraethu o'r farn bod gan y coleg fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Dim ond y rhai a ddaeth i sylw yn ystod archwiliad mewnol yw'r materion a godwyd yn yr adroddiad archwilio mewnol ac nid yw o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gall fod eu hangen.

Busnes gweithredol

Yn dilyn cadarnhad y bydd y coleg yn parhau i fod yn Sefydliad Addysg Bellach, mae mwy o sicrwydd bellach o sector y coleg ar gyfer y blynyddoedd ariannol i ddod, mae'r Corff Llywodraethu yn ystyried bod gan y coleg adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd trwy orchymyn gan aelodau'r Corff Llywodraethu ar 5 Rhagfyr 2024 a llofnodwyd ar ei ran gan:



Christian Mahoney
Cadeirydd y Llywodraethwyr



Geraint Williams
Swyddog Cyfrifo

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad y Corff Llywodraethu ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y coleg â thelerau ac amodau ariannu Llywodraethu Cymru

Mae'r Corff Llywodraethu wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru am afreoleidd-dra sylweddol, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio â thelerau ac amodau ariannu Llywodraeth Cymru, o dan femorandwm ariannol sydd ar waith rhwng y coleg a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'n hystyriaeth, rydym wedi rhoi sylw dyledus i ofynion y memorandwm ariannol.

Rydym yn cadarnhau, ar ran y Corff Llywodraethu, ein bod, ar ôl ymholiad priodol, a hyd eithaf ein gwybodaeth, yn gallu nodi unrhyw ddefnydd materol afreolaidd neu amhriodol o gyllid gan y coleg, neu ddifffyg cydymffurfio materol â thelerau Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cadarnhau na ddarganfuwyd unrhyw achosion o afreoleidd-dra perthnasol, amhriodoldeb neu ddifffyg cydymffurfio ariannol hyd yma. Os canfyddir unrhyw achosion ar ôl dyddiad y datganiad hwn, rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru am y rhain.



Christian Mahoney
Cadeirydd y Llywodraethwyr



Geraint Williams
Swyddog Cyfrifo

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethu

Mae'n ofynnol i aelodau'r Corff Llywodraethu gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Chorff Llywodraethu'r coleg, mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethu, drwy ei Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad gweithredu ac ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Datganiad o Arferion Cymeradwy – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, y Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru ac Egwyddorion Cyfrifyddu Cyffredinol y DU, ac sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr y Coleg a'i warged/diffyg incwm dros wariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethu:

- ddewis polisïau cyfrifo addas a'u cymhwyso'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol
- asesu a yw'r coleg yn fusnes gweithredol, gan nodi'r rhagdybiaethau, y cymwysterau neu'r camau lliniaru allweddol sy'n ategu'r sefyllfa, fel y bo'n briodol (y mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac adroddiad yr archwilydd)
 - paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Coleg yn parhau i weithredu

Mae'n ofynnol hefyd i'r Corff Llywodraethu baratoi Adroddiad Aelodau yn unol â pharagraffau 3.23 i 3.27 o'r SORP AB ac AU, sy'n disgrifio'r hyn y mae'n ceisio'i wneud a sut mae'n mynd ati i wneud hynny, gan gynnwys gwybodaeth am statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Coleg, ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â deddfwriaethau perthnasol gan gynnwys Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu ei asedau ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb ei wefan(nau); nid yw'r gwaith a wneir gan archwilywyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilywyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae Aelodau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Lywodraeth Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda Llywodraeth Cymru ac unrhyw amodau eraill a ragnodir o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw gyllidwr cyhoeddus arall y defnyddir arian o Gyfarwyddyd Cyfrifon Cymru ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru 2023/24 Llywodraeth Cymru Fersiwn 1.0 Tudalen 11 o 16 Llywodraeth, ac unrhyw arian cyhoeddus arall.

Rhaid i aelodau sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheolaethol priodol yn eu lle er mwyn diogelu arian cyhoeddus a chronfeydd eraill a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol. Yn ogystal, mae Aelodau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Coleg, fel nad yw'r buddion a ddylai ddeillio o ddefnyddio arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cael eu peryglu. Cymeradwywyd trwy orchymyn gan aelodau'r Corff Llywodraethu ar 5 Rhagfyr 2024 a llofnodwyd ar ei ran gan:



Christian Mahoney
Cadeirydd

Coleg Catholig Dewi Sant

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Coleg Catholig Dewi Sant

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Coleg Catholig Dewi Sant (y 'Coleg') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 sy'n cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Coleg ar 31 Gorffennaf 2024 ac o weddillion incwm dros wariant y Coleg am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.

Sail i farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r Coleg yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ar rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Corff Llywodraethu o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu mewn perthynas â busnes gweithredol mewn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Corff Llywodraethu, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blyneddol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'n gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, neu'n ymddangos fel arall. Os byddwn yn nodi anghysondebau o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Coleg Catholig Dewi Sant

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae'r Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- ni chafwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- bod y wybodaeth a roddir yn adroddiad Aelodau'r Corff Llywodraethu, gan gynnwys yr adolygiad gweithredu ac ariannol a'r datganiad llywodraethu corfforaethol, yn anghyson â'r datganiadau ariannol; a
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Trosglwyddwyd rheoleiddio sector Addysg Bellach Cymru o Lywodraeth Cymru i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar 1 Awst 2024. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio, Cyfarwyddyd Cyfrifon 2023/24 a'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn parhau mewn grym ar ddyddiad ein hadroddiad. Yng ngoleuni'r trosglwyddiad hwn, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at Lywodraeth Cymru yn ein hadroddiad fel pe bai hefyd yn cyfeirio at Medr.

Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth a nodir ar dudalen 18, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer y cyfryw reolaeth fewnol ag y mae'r aelodau'n penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am asesu gallu'r Coleg i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Corff Llywodraethu naill ai'n bwriadu diddymu'r Coleg neu i roi'r gorau i weithrediadau, neu nid oes dewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Coleg a'i ddiwydiant, roeddem o'r farn y gallai diffyg cydymffurfio â'r chyfreithiau a'r rheoliadau a ganlyn gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol: cydymffurfio â chytundebau ariannu Llywodraeth Cymru, fframwaith rheoleiddio Estyn, diogelu, deddfwriaeth pensiynau, rheoleiddio iechyd a diogelwch, gwrth-lwgrwobrwy, llygredd a thwyll, gwyngalchu arian.

Coleg Catholig Dewi Sant

Er mwyn ein helpu i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, ac wrth nodi ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio, roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Holi'r rheolwyr a, lle bo'n briodol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a yw'r Coleg yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, a thrafod eu polisiau a'u gweithdrefnau ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- Archwilio gohebiaeth, os o gwbl, ag awdurdodau trwyddedu neu reoleiddio perthnasol;
- Cyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd i'r tîm ymgysylltu a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol ein harchwiliad; ac
- Ystyried y risg o weithredoedd gan y Coleg a oedd yn groes i gyfreithiau a rheoliadau cymwys, gan gynnwys twyll.

Gwnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol, megis deddfwriaeth pensiynau.

Yn ogystal, gwnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd y Corff Llywodraethu a'r rheolwyr ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus, gan gynnwys y risg y byddai rheolwyr yn diystyru'r rheolaethau, a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n ymwneud â phostio cofnodion dyddlyfr â llaw i drin perfformiad ariannol, bias rheolwyr drwy ddyfarniadau a thybiaethau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol, yn arbennig mewn perthynas â chydabod refeniw (a dynnwyd gennym at yr honiad terfyn), a thrafodion untro neu anarferol sylweddol.

Roedd ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â thwyll yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- Gwneud ymholiadau i'r aelodau a'r rheolwyr a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, drwgdybiedig neu honedig;
- Cael dealltwriaeth o'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll;
- Trafod risgiau twyll ymhlith y tîm ymgysylltu; a
- Mynd i'r afael â'r risgiau o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau trwy gynnal profion cofnodion dyddlyfr.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod ac mae'r prif gyfrifoldeb am atal a chanfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll yn gorwedd gyda'r rheolwyr. Fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg o hyd o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgyllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

Barn ar faterion eraill a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:


- Mae arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny ac, os yw'n briodol, wedi'i reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol; ac
- mae incwm wedi'i gymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

Defnydd o'r adroddiad archwilio

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Corff Llywodraethu yn unig fel corff yn unol ag Erthyglau Llywodraethu'r Coleg. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i'r Corff Llywodraethu y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac

Coleg Catholig Dewi Sant

nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Coleg a'r Corff Llywodraethu fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.


Forvis Mazars LLP (Dec 13, 2024 14:21 GMT)

Forvis Mazars LLP

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilydd Statudol

90 Victoria Street

Bryste

BS1 6DP

Dyddiad: Rhag 13, 2024

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

	Nodiadau	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
		2024	2023
		£'000	£'000
INCWM			
Grantiau corff cyllido	2	10,381	10,401
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	3	226	415
Grantiau a chontractau eraill	4	183	25
Incwm arall	5	392	341
Incwm buddsoddiadau	6	115	65
Cyfanswm incwm		11,297	11,247
GWARIANT			
Costau staff	7	7,865	7,894
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	83	8
Costau gweithredu eraill	8	2,455	2,504
Dibrisiant	11/12	634	606
Llog a chostau cyllid eraill	9	(3)	43
Cyfanswm gwariant		11,034	11,055
Gweddill cyn enillion a cholledion eraill		263	192
Colled ar waredu asedau		14	0
Gweddill cyn trethiant		249	192
Trethiant	10	0	0
Gweddill am y flwyddyn		249	192
Enillion actiwaraid/(colled) mewn perthynas â chynlluniau pensiwn		(37)	1,578
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn		212	1,770
Cynrychiolir gan:			
Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig		212	1,770

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

	£'000
Balans ar 31 Gorffennaf 2022	2,637
Gweddill o'r cyfrif incwm a gwariant	192
Incwm cynhwysfawr arall	1,600
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	1,792
Balans ar 31 Gorffennaf 2023	4,429
Gweddill o'r cyfrif incwm a gwariant	249
Incwm cynhwysfawr arall	(37)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	212
Balans ar 31 Gorffennaf 2024	4,640

Coleg Catholig Dewi Sant

Mantolen ar 31 Gorffennaf 2024

	Nodiadau	2024 £'000	2023 £,000
Asedau anghyfredol			
Asedau diriaethol	1	13,072	11,456
	1		
Asedau anniriaethol		0	0
		<u>13,072</u>	<u>11,456</u>
Asedau cyfredol			
Stociau		1	5
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	1	692	410
	3		
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		<u>3,372</u>	<u>2,490</u>
		4,065	2,905
Namyn: Credydwy'r – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	1	<u>(2,018)</u>	<u>(2,460)</u>
	4		
Asedau net cyfredol		<u>2,047</u>	<u>445</u>
Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol		15,119	11,901
Namyn: Credydwy'r – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	1	(10,316)	(7,317)
	5		
Darpariaethau			
Darpariaethau eraill	1	(162)	(155)
	7		
Cyfanswm asedau net/(rhwymedigaethau)		<u>4,640</u>	<u>4,429</u>
Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig			
Cyfrif incwm a gwariant		4,640	4,429
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig		<u>4,460</u>	<u>4,429</u>

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Corff Llywodraethu ar 5 Rhagfyr 2024 a llofnodwyd hwy ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:



Christian Mahoney
Cadeirydd y Llywodraethwyr



Geraint Williams
Swyddog Cyfrifo

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad Llif Arian

	Nodiadau	2024 £'000	2023 £'000
Mewnlif arian o weithgareddau gweithredu			
Gweddill/(diffyg) am y flwyddyn		263	192
Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod			
Dibrisiant		634	606
Dibrisio Asedau Sefydlog		(14)	0
Gostyngiad mewn stociau		4	(1)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr		(283)	(66)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		(680)	1,156
Cynnydd mewn credydwyr sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn		(7)	0
Costau cyllid pensiwn		(2)	41
Costau pensiynau namyn cyfraniadau taladwy		(18)	202
Grantiau cyfalaf gohiriedig yn cael eu rhyddhau i incwm		(486)	(445)
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu			
Incwm buddsoddiadau		(116)	(65)
Llog taladwy		2	2
Colled ar waredu asedau sefydlog		14	0
Llif arian net o weithgareddau gweithredu		(689)	1,622
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Incwm buddsoddiadau		115	65
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog diriaethol		(3,514)	(4,313)
Cynnydd mewn derbyniadau cyfalaf gohiriedig		321	
Derbyniadau grant		4,693	2,403
		1,615	(1,845)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Llog a dalwyd		(2)	(2)
Ad-dalu symiau a fenthycwyd		(43)	(43)
		(45)	(45)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn		881	(268)
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	18	2,491	2,758
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	18	3,372	2,491
		881	(268)

Coleg Catholig Dewi Sant

Dadansoddiad Dyled Net

Arian Parod a Chyfwertth ag Arian Parod	Ar 1 Awst 2023	Lif Arian Parod	Newidiadau eraill nad ydynt yn arian parod	Ar 31 Gorffennaf 2024
	£'000's	£'000's	£'000's	£'000's
Lif	2,491	881	0	3,372
Gorddrafft	0	0	0	0
Cyfwertth ag arian parod	0	0	0	0
	2,491	881	0	3,372
Benthyciadau				
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	41	0	0	41
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	71	0	(44)	27
	112	0	(44)	68
Cyfanswm	2,603	881	(44)	3,440

Coleg Catholig Dewi Sant

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif

Mae'r polisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Sefydlwyd y Gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 er mwyn cynnal Coleg Catholig Dewi Sant. Mae'r coleg yn elusen eithriedig at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf Elusennau 2011. Sefydlwyd y Gorfforaeth yng Nghymru a'r swyddfa gofrestredig yw Coleg Catholig Dewi Sant, Heol Tŷ Gwyn, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 5QD.

Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 (SORP AB AU 2019), Cyfarwyddyd Cyfrifon y Coleg ar gyfer 2023 i 2024 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (FRS 102). Mae'r coleg yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofynion budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

Mae paratoi datganiadau ariannol i gydymffurfio ag FRS 102 yn gofyn am ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu critigol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr arfer barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r coleg.

Sail cyfrifyddu

Paratwir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

Busnes gweithredol

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol wedi'u nodi yn yr Adroddiad Strategol. Mae sefyllfa ariannol y coleg, ei llif arian, ei hylifedd a'i fenthyciadau yn cael eu cyflwyno yn y Datganiadau Ariannol ac yn y Nodiadau cysylltiedig.

Yn 2023/24 mae'r coleg wedi cyflawni gweithgaredd ar 98.76% o'i darged ariannu. Mae'r coleg yn monitro demograffeg yr awdurdodau lleol y mae'n eu gwasanaethu ac mae'n ymwybodol o'r cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol dros y 10 mlynedd nesaf. Nod y bloc addysgu newydd sydd ar y gweill yw darparu ar gyfer rhywfaint o'r twf yn y boblogaeth.

Mae gan y coleg fenthyciadau o £67,550 heb eu talu ar hyn o bryd gyda bancwyr ar delerau a drafodwyd yn 2016, oll wedi'u sicrhau gan dâl sefydlog a chyfnewidiol ar asedau'r coleg. Adnewyddwyd y benthyciad yn 2020/21 am 5 mlynedd ychwanegol. Mae rhagolygon a rhagamcanion ariannol y coleg yn dangos y bydd yn gallu gweithredu o fewn y cyfleuster a'r cyfmodau presennol hwn am y dyfodol rhagweladwy.

Yn unol â hynny, mae gan y coleg ddisgwyliad rhesymol bod ganddo adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy, ac am y rheswm hwn bydd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi ei Ddatganiadau Ariannol.

Cydnabod incwm

Cyllid grantiau refeniw

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd cyrff cyllido a grantiau eraill a rhoddir cyfrif amdanynt o dan y model cronni a ganiateir gan FRS 102. Mesurir grantiau rheolaidd cyrff cyllido yn unol â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer cyfnod yr hyn sy'n dderbyniadwy ac maent yn dibynnu ar y ffrwd incwm benodol dan sylw. Fel arfer pennir yr incwm grant terfynol gyda chasgliad y broses gysoni diwedd blwyddyn gyda'r corff cyllido ar ddiwedd y flwyddyn, a chanlyniadau unrhyw archwiliadau ariannu. Caiff unrhyw dangyflawni yn erbyn y gweithgaredd arfaethedig hwn ei addasu yn ystod y flwyddyn a'i adlewyrchu yn lefel y grant rheolaidd a gydnabyddir yn y cyfrif incwm a

Coleg Catholig Dewi Sant

gwariant.

Mae grantiau o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cydnabod mewn incwm pan fydd gan y coleg hawl i'r incwm a phan fydd amodau cysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Mae incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau cysylltiedig â pherfformiad yn cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwy'r ar y fantolen a'i ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Cyllid grantiau cyfalaf

Mae grantiau cyfalaf y llywodraeth yn cael eu cyfalafu, eu dal fel incwm gohiriedig a'u cydnabod mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, o dan y dull cronni a ganiateir gan FRS 102. Mae grantiau cyfalaf eraill yn cael eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y coleg hawl i'r cyllid yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â pherfformiad.

Incwm ffioedd

Mae incwm o ffioedd dysgu yn cael ei ddatgan yn gryswth o unrhyw wariant nad yw'n ostyngiad ac fe'i cydnabyddir yn y cyfnod y'i derbynnir.

Incwm buddsoddiadau

Mae'r holl incwm o flaendaliadau tymor byr yn cael ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y'i henillir ar sail symiau derbyniadwy.

Trefniadau asiantaeth

Mae'r coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu rhai cronfeydd cymorth dewisol. Mae taliadau cysylltiedig a dderbynnir gan y cyrff cyllido a thaliadau dilynol i fyfyrwyr wedi'u heithrio o incwm a gwariant y coleg lle mae'r coleg yn agored i risg fach iawn neu'n mwynhau'r budd economaidd lleiaf posibl sy'n gysylltiedig â'r trafodiad.

Cyfrifo ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth

Darperir buddion ôl-gyflogaeth i weithwyr y coleg yn bennaf gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Mae'r rhain yn gynlluniau buddion diffiniedig, sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)

Mae'r TPS yn gynllun heb ei ariannu. Mae cyfraniadau i'r TPS yn cael eu cyfrifo er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gwaith y gweithwyr gyda'r coleg yn y fath fodd fel bod cost y pensiwn yn ganran sylweddol wastad o'r gyflogres bensiynadwy yn gyfredol ac yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwariaid cymwys ar sail prisiadau gan ddefnyddio dull buddion arfaethedig.

Mae'r TPS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid oes digon o wybodaeth ar gael i ddefnyddio cyfrifyddu buddion diffiniedig. Mae'r TPS felly'n cael ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a'r cyfraniadau'n cael eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fydd y cyflogaeth yn darparu gwasanaethau.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro (GPLIL)

Mae'r GPLIL yn gynllun a ariennir. Mesurir asedau'r GPLIL gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Mesurir rhwymedigaethau GPLIL gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol a'u disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaethol o ansawdd uchel sy'n gyfwerth i'r rhwymedigaethau o ran tymor ac arian cyfred. Ceir y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd o leiaf a cânt eu diweddarau ar ddyddiad pob mantolen. Y symiau a godir ar weddillion gweithredu yw'r costau gwasanaeth presennol a chostau cyflwyno cynlluniau, newidiadau i fudd-daliadau, setliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff wrth iddynt godi.

Mae llog net ar yr ymrwymiad/ased buddion diffiniedig net hefyd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cynnwys y gost llog ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ac incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi'i chyfrifo drwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod gan y gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio'r rhwymedigaethau buddion. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r enillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn cael ei gydnabod mewn llog a chostau cyllid eraill.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd eu cydnabod ar unwaith mewn enillion a cholledion actiwaraidd.

Coleg Catholig Dewi Sant

Buddion cyflogaeth tymor byr

Mae buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau a ad-dalwyd (tâl gwyliau) yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn darparu gwasanaeth i'r coleg. Caiff unrhyw fuddion nas defnyddiwyd eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r coleg yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawl nas defnyddiwyd. Rhoddir cyfrif am fuddion terfynu pan ystyrir bod rhwymedigaeth yn bodoli.

Pensiynau uwch

Telir cost wirioneddol unrhyw bensiwn parhaus uwch i gyn aelod o staff gan goleg yn flynyddol. Mae amcangyfrif o gost ddisgwyliedig unrhyw ychwanegiad i bensiwn parhaus cyn aelod o staff yn y dyfodol yn cael ei godi'n llawn ar incwm y coleg yn y flwyddyn y mae'r aelod o staff yn ymddeol. Mewn blynyddoedd dilynol codir tâl ar ddarpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiwn uwch a ddarperir gan y cyrff cyllido.

Asedau Anghyfredol - Asedau sefydlog diriaethol

Nodir asedau sefydlog diriaethol ar gost namyn dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Tir ac adeiladau

Mae tir ac adeiladau a gaffaelwyd ers 1 Ebrill 1993 wedi'u cynnwys yn y fantolen ar gost. Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu dibrisio, ar sail llinell syth, dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r coleg o 50 mlynedd. Mae gwaith adnewyddu sy'n adfer buddion economaidd adeiladau yn cael eu dibrisio dros oes fyrrach o rhwng 10 ac 20 mlynedd.

Nid yw tir ac adeiladau a etifeddwyd ar 1 Ebrill 1993 gan Gyngor Sir De Morgannwg a thir ac adeiladau eraill sy'n parhau i fod yn eiddo i Archesgobaeth Caerdydd wedi'u cynnwys yn y fantolen.

Lle caiff tir ac adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel yr uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig o fewn credydwy'r ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail systematig sy'n gyson â'r polisi dibrisiant. Dyrennir yr incwm gohiriedig rhwng credydwy'r sy'n ddyledus o fewn blwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

Cynhelir adolygiad ar gyfer amhariad ar ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn awgrymu efallai na fydd modd adennill swm cario unrhyw ased sefydlog.

Gwariant dilynol ar asedau sefydlog presennol

Pan eir i wariant sylweddol ar asedau sefydlog diriaethol ar ôl y pryniant cychwynnol caiff ei godi ar incwm yn y cyfnod yr eir iddo, oni bai ei fod yn cynyddu buddion i'r coleg yn y dyfodol, ac os felly caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio ar y sail berthnasol.

Offer

Mae offer sy'n costio llai na £1,000 fesul eitem unigol yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y cyfnod caffael. Mae'r holl offer eraill yn cael eu cyfalafu ar gost.

Caiff offer wedi'u cyfalafu eu dibrisio ar sail llinell syth o'r mis y'u prynir dros weddiill eu hoes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

- Offer cyffredinol 5 – 10 mlynedd
- Offer TG 5 mlynedd

Cynhelir adolygiad ar gyfer amhariad ar ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn awgrymu efallai na fydd modd adennill gwerth cario unrhyw ased sefydlog. Mae diffygion rhwng gwerth cario asedau sefydlog a'u symiau adferadwy yn cael eu cydnabod fel amhariadau. Mae colledion amhariad yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau anniriaethol

Coleg Catholig Dewi Sant

Mae asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1,000 fesul eitem unigol yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y cyfnod caffael. Mae'r holl asedau anniriaethol eraill yn cael eu cyfalafu ar gost.

Caiff offer wedi'u cyfalafu eu dibrisio ar sail llinell syth o'r mis y'u prynir dros weddill eu hoes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

- Meddalwedd 5 mlynedd
- Arall 5 mlynedd

Costau benthycia

Mae costau benthycia yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y cyfnod yr eir iddynt.

Asedau ar brydles

Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Rhestrau eiddo

Nodir rhestrau eiddo ar gost. Lle bo angen, gwneir darpariaeth ar gyfer eitemau darfodedig, araf eu symud a diffygiol.

Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a blaendaliadau sy'n ad-daladwy ar gais a gorddrafftiau. Mae blaendaliadau yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol tymor byr y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth. Mae buddsoddiad yn gymwys fel arian parod cyfatebol pan fydd yn aeddfedu o 3 mis neu lai o'r dyddiad caffael.

Rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti

Dosberthir rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti yn ôl sylwedd rhwymedigaethau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Mae pob benthyciad, buddsoddiad a blaendal tymor byr a ddelir gan y Grŵp yn cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Mae'r offerynnau hyn yn cael eu cofnodi i ddechrau ar bris y trafodiad namyn unrhyw gostau trafodion (cost hanesyddol). Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i offerynnau ariannol sylfaenol gael eu mesur wedyn ar gost wedi'i hamortieiddio, fodd bynnag mae'r coleg wedi cyfrifo nad yw'r gwahaniaeth rhwng y gost hanesyddol a'r sail cost amortieiddiedig yn berthnasol ac felly mae'r offerynnau ariannol hyn wedi'u datgan ar y fantolen ar gost hanesyddol. Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn blwyddyn yn cael eu disgowntio.

Trosi arian tramor

Cofnodir trafodion mewn arian tramor gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor yn cael eu trosi ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddiwedd y cyfnod ariannol gyda'r holl wahaniaethau cyfnewid dilynol yn cael eu cymryd i incwm yn y cyfnod y maent yn codi.

Trethiant

Ystyrir bod y coleg yn llwyddo'r profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n bodloni'r diffiniad o gwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y DU. Yn unol â hynny, mae'n bosibl bod y coleg wedi'i eithrio rhag trethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau a gwmpeisir gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Cyrff Llywodraethu 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm o'r fath neu

Coleg Catholig Dewi Sant

enillion yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r coleg yn cael unrhyw eithriad o'r fath mewn perthynas â Threth ar Werth, felly ni all adennill y TAW a godir ar ei fewnbynnau. Mae TAW anadferadwy ar fewnbynnau wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath a'i hychwanegu at gost asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, lle mae'r mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol eu natur.

Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan;

- mae gan y coleg rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- ei fod yn debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a
- gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Lle mae effaith gwerth amser arian yn sylweddol, mae'r swm y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei gydnabod ar y gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth. Mae dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel cost ariannol yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n codi.

Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r rheolwyr wedi gwneud y dyfarniadau canlynol:

- Penderfynu a yw prydles yr ymrwymir iddynt gan y coleg naill ai fel prydleswr neu brydlesai yn brydles gweithredol neu gyllid. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar asesiad i weld a yw risgiau a gwobrau perchnogaeth wedi'u trosglwyddo o'r prydleswr i'r prydlesai ar sail prydles wrth brydles.
- Penderfynu a oes dangosyddion o amhariad ar asedau diriaethol y coleg.

Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif

- *Asedau sefydlog diriaethol*

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol gan ystyried gwerthoedd gweddilliol, lle bo'n briodol. Asesir oes wirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol a gallant amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu oes asedau, ystyrir ffactorau megis arloesi technolegol a rhaglenni cynnal a chadw. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn ystyried materion megis amodau'r farchnad yn y dyfodol, gweddill oes yr ased a'r gwerthoedd gwaredu a ragwelir.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

Mae gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau a bennir ar sail actiwaraid gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i bennu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau yn y tybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 22, yn effeithio ar swm cario'r rhwymedigaeth bensiwn. Ymhellach, mae dull treigl ymlaen sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r prisiad actiwaraid llawn diweddaraf a gyflawnwyd ar 31 Mawrth 2012 wedi'i ddefnyddio gan yr actiwari i brisio'r rhwymedigaeth bensiynau ar 31 Gorffennaf 2024. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigurau sy'n deillio o'r dull treigl ymlaen a phrasiad actiwaraid llawn yn effeithio ar swm cario'r rhwymedigaeth bensiwn.

2 Grantiau corff cyllido

	2024 £'000	2023 £'000
Grantiau rheolaidd		
Grant rheolaidd SGAG Llywodraeth Cymru	8,637	8,277
Cyllid rheolaidd arall	417	360

Coleg Catholig Dewi Sant

Grantiau Penodol

Rhyddhau grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru

Grantiau Llywodraeth Cymru eraill

Cyfanswm

485	445
842	1,319
10,381	10,401

3 Ffioedd dysgu a chontractau addysg

	2024	2023
	£'000	£'000
Ffioedd nad ydynt yn gontractau addysg	126	158
Ffioedd arholiadau	18	9
Contractau addysg	82	248
Cyfanswm	226	415

4 Grantiau a chontractau eraill

	2024	2023
	£'000	£'000
Grantiau a chontractau eraill	183	25
Cyfanswm	183	25

5 Incwm arall

	2024	2023
	£'000	£'000
Arlwyo a Phreswyladau	314	235
Gweithgareddau eraill sy'n cynhyrchu incwm	59	106
Incwm amrywiol	19	0
Cyfanswm	392	341

6 Incwm buddsoddiadau

	2024	2023
	£'000	£'000
Llog arall derbyniadwy	115	65
Cyfanswm	115	65

Coleg Catholig Dewi Sant

7 Costau staff

Nifer cyfartalog y bobl (gan gynnwys personél rheoli allweddol) a gyflogwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn, a ddisgrifiwyd fel rhai cyfwerth ag amser llawn, oedd:

	2024 Nifer	2023 Nifer
Staff addysgu	79	83
Staff nad ydynt yn addysgu	54	54
	<u>133</u>	<u>137</u>

Cyfrif pennau y bobl (gan gynnwys personél rheoli allweddol) a gyflogwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn oedd:

	2024 Nifer	2023 Nifer
Staff addysgu	91	94
Staff nad ydynt yn addysgu	75	68
	<u>166</u>	<u>162</u>

Costau staff ar gyfer yr unigolion uchod

	2024 £'000	2023 £'000
Cyflogau	5,914	5,759
Costau nawdd cymdeithasol	629	608
Costau pensiwn eraill	1,279	1,360
Is-gyfanswm cyflogres	7,822	7,769
Gwasanaethau staffio sy'n cael eu contractio allan	43	125
	<u>7,865</u>	<u>7,894</u>
Costau ailstrwythuro sylfaenol – anghontractiol	83	8
Cyfanswm costau staff	<u>7,947</u>	<u>7,902</u>

Personél rheoli allweddol

Personél rheoli allweddol yw'r bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r coleg ac sydd wedi'u cynrychioli gan y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth.

Enillion Personél rheoli allweddol, Swyddog Cyfrifo a staff eraill ar gyflog uwch

	2024 £'000	2023 £'000
Y nifer o bersonél rheoli allweddol gan gynnwys y Swyddog Cyfrifo oedd:	3	2

Coleg Catholig Dewi Sant

Roedd newid yn y KMP yn 2023-24 o 2 i 3. Penododd y Coleg Bennaeth newydd ym mis Mai 2024 ac felly mae wedi'i restru fel person ychwanegol.

Nifer y personél rheoli allweddol a staff eraill a dderbyniodd enillion, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr ond gan gynnwys buddion mewn nwyddau, yn yr ystod ganlynol oedd:

	Personél rheoli allweddol		Staff eraill	
	2024 Nifer	2023 Nifer	2024 Nifer	2023 Nifer
£60,001 i £65,000 p.a.	-	-	4	5
£65,001 i £70,000 p.a.	-	-	-	1
£70,001 i £75,000 p.a.	1	-	2	2
£80,001 i £85,000 p.a.	-	-	-	1
£85,001 i £90,000 p.a.	-	-	-	-
£95,001 i £100,000 p.a.	1	1	-	-
£125,001 i £130,000 p.a.	-	1	-	-
£155,001 i £160,000 p.a.	1	-	-	-
	<u>3</u>	<u>2</u>	<u>6</u>	<u>9</u>

Mae iawndal personél rheoli allweddol yn cynnwys y canlynol:

	2024 £'000	2023 £'000
Cyflogau	286	229
Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	<u>41</u>	<u>30</u>
	327	259
Cyfraniadau Pensiwn	<u>63</u>	<u>54</u>
Cyfanswm Enillion	<u>390</u>	<u>313</u>

Nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus i bersonél rheoli allweddol a gafodd eu hepgor yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw drefniadau aberthu cyflog ar waith.

Mae'r iawndal yn cynnwys symiau sy'n daladwy i'r Swyddog Cyfrifo (sydd hefyd y swyddog ar y cyflog uchaf). Gan fod mwy nag un swyddog cyfrifyddu wedi bod yn ystod y cyfnod, datgelir enillion pob un yn ystod eu cyfnod fel

Swyddog Cyfrifyddu isod.

Mae hyn yn cynnwys elfen o daliad diswyddo o £36,000 i KMP 1.

	2024 £'000	2024 £'000
Cyflogau		
KMP 1	160	130
KMP 2	27	0
Pensiwn		
KMP 1	26	31
KMP 2	8	0
Cyfanswm Enillion	<u>221</u>	<u>161</u>

Coleg Catholig Dewi Sant

Caiff perfformiad a chydabyddiaeth ariannol y Swyddog Cyfrifo eu hadolygu'n flynyddol yn dilyn gwerthusiad gan y Corff Llywodraethu. Gosodir targedau perfformiad blynyddol ac maent yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni Cynllun Gweithredol Blynyddol a Chynllun Strategol y Coleg. Mae targedau o'r fath fel arfer yn ymwneud â recriwtio dysgwyr, gwell canlyniadau dysgwyr a phrofiad cyffredinol y dysgwr. Caiff perfformiad yn erbyn targedau ei adolygu yn ystod tymor yr hydref bob blwyddyn academiaidd. Mae unrhyw newid arfaethedig i daliadau cydnabyddiaeth yn cael ei fesur yn erbyn perfformiad mewn perthynas â thargedau, manyleb rôl ac yn cael ei feincodi yn erbyn taliad cydnabyddiaeth mewn sefydliadau tebyg.

Ni chafodd aelodau'r Corff Llywodraethu ac eithrio'r Swyddog Cyfrifo a'r aelod staff unrhyw daliad gan y sefydliad ac eithrio ad-daliad costau teithio a chynhaliadau a gafwyd yn ystod eu dyletswyddau.

Perthynas tâl Pennaeth/Swyddog Cyfrifo, a thaliad cydnabyddiaeth wedi'i fynegi fel lluosrif.

Mae hyn yn eithrio dechreuwyr ac ymadawyr yn y flwyddyn a gweithwyr asiantaeth.

	2024	2023
Cyfanswm cyflog sylfaenol y pennaeth fel lluosrif o ganolrif yr holl staff	<u>4.5</u>	<u>3.4</u>
Cyfanswm taliad cydnabyddiaeth y pennaeth fel lluosrif o ganolrif yr holl staff	<u>4.4</u>	<u>3.8</u>

Costau Ailstrwythuro Sylfaenol

Talodd y Coleg 3 thaliad diswyddo yn ystod y flwyddyn a oedd yn ofynnol ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

£0-£25,000	2
£25,001-£50,000	1

8 Costau gweithredu eraill

	2024 £'000	2023 £'000
Adrannau addysgu a dysgu	398	223
Gwasanaethau cymorth addysgu a dysgu	650	660
Gwasanaethau cymorth eraill	40	42
Gwasanaethau Gweinyddu a Chanolog	379	533
Gwariant addysg gyffredinol	102	75
Costau safle	669	801
Arlwyo	217	170
Cyfanswm	<u>2,455</u>	<u>2,504</u>

Coleg Catholig Dewi Sant

Mae costau gweithredu eraill yn cynnwys:

	2024 £'000	2023 £'000
Taliad cydnabyddiaeth yr archwilydd:		
Archwiliad datganiadau ariannol	30	25
Archwiliad mewnol	18	10
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd gan yr archwilydd datganiadau ariannol	6	5
Colledion wrth waredu asedau diriaethol (lle nad ydynt yn berthnasol)	14	0

9 Llog a chostau cyllid eraill

	2024 £'000	2023 £'000
Ar fenthyciadau banc, gorddrafftiau a benthyciadau eraill:	<u>2</u>	<u>2</u>
	2	2
Costau cyllid pensiwn (nodyn 22)	<u>(5)</u>	<u>41</u>
Cyfanswm	<u>(3)</u>	<u>43</u>

10 Trethiant

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn credu fod y coleg yn atebol am unrhyw dreth gorfforaeth sy'n deillio o'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn.

Coleg Catholig Dewi Sant

11 Asedau sefydlog diriaethol

Adeiladau	Offer Cyfrifiadur	Offer Eraill	Gosodion a Ffitiadau	Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	Cyfanswm
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£,000's
Cost neu brisiad					
Ar 1 Awst 2023	7,479	1,205	828	5,170	14,966
Ychwanegion	13	96	2	3,400	3,514
Symudiad o AUC i FA	6,900	59	-	(6,990)	-
Gwaredu	(5)	-	(99)	-	(104)
Ar 31 Gorffennaf 2024	14,387	1,360	731	1,580	18,378
Dibrisiant					
Ar 1 Awst 2023	(2,116)	(739)	(589)	-	(3,511)
Tâl am y flwyddyn	(327)	(169)	(81)	-	(635)
Dileu o ran gwaredu	3	-	85	-	88
Ar 31 Gorffennaf 2024	(2,440)	(908)	(584)	0	(4,058)
Addasiadau Eraill					
Ad-daliad TAW				(1,248)	(1,248)
Ar 31 Gorffennaf 2024	0	0	0	(1,248)	0
Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Gorffennaf 2024	11,947	451	147	332	13,072
Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Gorffennaf 2023	5,362	466	239	5,170	11,456

Mae'r ad-daliad TAW yn gysylltiedig â
TAW na ellir ei adennill sy'n ymwneud â'r Bloc
Addysgu Newydd

12 Asedau sefydlog anniriaethol

	Cyfanswm £,000
Cost neu brisiad	
Ar 1 Awst 2023	34
Ychwanegion	0
Gwaredu	0
Ar 31 Gorffennaf 2024	34
Amorteiddio	
Ar 1 Awst 2023	(34)
Tâl am y flwyddyn	(0.1)
Dileu o ran gwarediadau	-
Ar 31 Gorffennaf 2024	(3 4)
Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Gorffennaf 2024	0
Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Gorffennaf 2023	0

13 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

	2024 £'000	2023 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Symiau derbyniadwy masnach	154	29
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	159	381
Incwm cronedig - grantiau refeniw y llywodraeth	379	0
Cyfanswm	692	410

Coleg Catholig Dewi Sant

14 Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2024 £'000	2023 £'000
Benthyciadau banc a gorddrafftiau	41	41
Symiau masnach taladwy	277	865
Credydwy'r eraill (Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol ac Athrawon)	456	383
Croniadau ac incwm gohiriedig	561	726
Incwm gohiriedig - grantiau cyfalaf y llywodraeth	683	445
Cyfanswm	2,018	2,460

15 Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn

	2024 £'000	2023 £'000
Benthyciadau banc	27	70
Incwm gohiriedig - grantiau cyfalaf y llywodraeth	10,289	7,247
Cyfanswm	10,316	7,317

16 Aeddfedrwydd dyled

(a) Benthyciadau banc a gorddrafftiau

Mae benthyciadau banc a gorddrafftiau yn ad-daliadwy fel a ganlyn:

	2024 £'000	2023 £'000
Mewn blwyddyn neu lai	41	41
Rhwng un a dwy flynedd	27	41
Rhwng dwy a phum mlynedd	0	30
Mewn pum mlynedd neu fwy	0	0
Cyfanswm	68	112

Coleg Catholig Dewi Sant

17 Darpariaethau

	Rhwym edigaethau buddion diffiniedig £'000	Pensiyna u uwch £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2023	(0)	155	155
Gwariant yn y cyfnod	(265)	(5)	(270)
Symudiad yn y cyfnod	265	11	276
Ar 31 Gorffennaf 2024	0	162	162

Mae rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn ymwneud â'r rhwymedigaethau o dan aelodaeth y coleg o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 23.

Y prif dybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yw:

	2024	2023
Chwyddiant pris	2.60%	2.60%
Cyfradd disgownt	5.00%	3.40%

18 Rhwymedigaethau Prydles

Ar 31 Gorffennaf roedd gan y coleg isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	2024 £'000	2023 £'000
Isafswm taliadau prydles sy'n ddyledus yn y dyfodol		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	4	20
Hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	3	8
Cyfanswm taliadau prydles sy'n ddyledus	7	28

19 Offerynnau Ariannol

	2024 £'000	2023 £'000
Asedau ariannol		
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	3,526	2,520
Rhwymedigaethau ariannol		
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	345	976

Mae asedau ariannol sy'n offerynnau dyled a fesurir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys dyledwyr, heb gynnwys rhagdaliadau, ac arian parod a chyfwerth ag arian parod.

Mae rhwymedigaethau ariannol a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys credydwy'r masnach, benthyciadau, symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig a chredydwy'r eraill.

20 Eitemau digwyddiadol

Nid oes unrhyw eitemau digwyddiadol.

21 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

22 Rhwymedigaethau buddion diffiniedig

Mae cyflogeion y coleg yn perthyn i ddau brif gynllun buddion ôl-gyflogaeth: Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (TPS) ar gyfer staff academiaidd a chysylltiedig, a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro (GPLIL) ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu, sy'n cael ei reoli gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Caerdydd. Mae'r ddau yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr.

Asesir y costau pensiwn yn unol â chyngor actiwarïaid cymwys annibynnol. Roedd prisiad actiwaraid ffurfiol diweddaraf y TPS ar 31 Mawrth 2020 a'r CPLIL ar 31 Mawrth 2022.

Cyfanswm costau pensiwn am y flwyddyn	2024	2023
£'000	£'000	£'000
Cynllun Pensiwn Athrawon: cyfraniadau a dalwyd	1,023	911
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:		
Cyfraniadau a dalwyd	265	285
Tâl FRS 102 (28)	19	202
Tâl i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	284	487
Tâl pensiwn uwch i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	8	3
Cyfanswm Costau Pensiwn am y Flwyddyn	1,315	1,401

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy i'r cynllun ar 31 Gorffennaf 2024 (2023: £0).

Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) yn gynllun buddion diffiniedig statudol, cyfrannol, a lywodraethir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill. Mae aelodaeth yn awtomatig i athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys. Gall athrawon a darlithwyr optio allan o'r TPS.

Mae'r TPS yn gynllun heb ei ariannu ac mae aelodau'n cyfrannu ar sail 'talw wrth fynd' – mae'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rhai a wneir gan gyflogwyr, yn cael eu credydu i'r Trysorlys o dan drefniadau a lywodraethir gan y Ddeddf uchod. Telir buddion ymddeoliad a buddion pensiwn eraill gan gronfeydd cyhoeddus a ddarperir gan Senedd y DU.

O dan y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r TPS yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y coleg nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Yn unol â hynny, mae'r coleg wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS 102 ac wedi rhoi cyfrif am ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r coleg wedi nodi uchod y wybodaeth sydd ar gael ar y cynllun a'r goblygiadau i'r coleg o ran y cyfraddau cyfrannu a ragwelir.

Cynhelir prisiad y TPS yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae prisiadau yn credydu cyfrif pensiwn athrawon gyda chyfradd enillion real yn cymryd bod cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu'r gyfradd enillion real honno.

Cynhaliwyd yr adolygiad actiwaraid diweddaraf o'r TPS ar 31 Mawrth 2020. Nododd y prisiad gyfanswm rhwymedigaethau cynllun (pensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd ac amcangyfrif o gost buddion y dyfodol) ar gyfer gwasanaeth hyd at y dyddiad dod i rym o £262 biliwn, ac asedau tybiannol (cyfraniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol ynghyd â'r buddsoddiadau tybiannol a ddelir ar y dyddiad prisio) o £222 biliwn, yn rhoi diffyg gwasanaeth yn y gorffennol tybiannol o £40 biliwn.

Gosodwyd cyfraddau cyfraniadau newydd gan gyflogwyr ar 28.68% o gyflog pensiynadwy o fis Ebrill 2024 ymlaen.

Mae copi llawn o'r adroddiad prisio a'r dogfennau ategol i'w gweld ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i TPS yn y flwyddyn oedd £1,023,226 (2023: £910,738)

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy i'r cynllun ar 31 Gorffennaf 2024.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r CPLIL yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir, gyda'r asedau'n cael eu dal mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Caerdydd. Cyfanswm y cyfraniad a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 oedd £371,921, gyda £264,884 yn gyfraniadau'r cyflogwr a £107,037 yn gyfraniadau cyflogaion. Y cyfraddau cyfrannu y cytunwyd arnynt ar gyfer y dyfodol yw 17.6% ar gyfer cyflogwyr ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% ar gyfer cyflogaion, yn dibynnu ar gyflog.

Ym mis Mehefin 2023 dyfarnodd yr Uchel Lys yn achos Virgin Media Limited v Ymddiriedolwyr Pensiwn NTL. Y dyfarniad oedd bod diwygiadau penodol i reolau cynlluniau pensiwn yn annilys os nad oeddent yn dod gyda'r cadarnhad actiwaraidd cywir.

Apeliwyd dyfarniad yr Uchel Lys. Mewn dyfarniad a draddodwyd ar 25 Gorffennaf 2024, cadarnhaodd y Llys Apêl benderfyniad yr Uchel Lys yn unfrydol.

Ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, er ei bod yn hysbys bod potensial i rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol gael eu cydnabod o ganlyniad i'r dyfarniad hwn, nid yw'r effaith mewn termau ariannol yn hysbys ac mae'n rhesymol ffurfio'r farn nad yw'n rhesymol ei hamcangyfrif. Yn unol â hynny, ni wnaed unrhyw addasiadau yn y datganiadau ariannol hyn i adlewyrchu effaith y dyfarniad.

Bydd y Llywodraethwyr yn parhau i fonitro'r datblygiadau ac ystyried yr effaith ar rhwymedigaethau'r LGPS a gydnabyddir gan y Coleg.

Nid yw'r ased FRS 102 wedi'i gydnabod gan nad yw'n adlewyrchu unrhyw nenfwd ased a gwnaed penderfyniad i beidio â chydabod un o ystyried nad yw cyfraniadau wedi lleihau'n sylweddol a bod y data'n anwadal iawn, ymhlith ffactorau eraill.

Prif Dybiaethau Actiwaraid

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actiwaraid llawn o'r gronfa ar 31 Mawrth 2022 wedi'i ddiweddarau i 31 Gorffennaf 2024 gan actiwari annibynnol cymwys.

	Ar 31 Gorffennaf 2024	Ar 31 Gorffennaf 2023
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.6%	3.6%
Cynnydd pensiynau y dyfodol	2.6%	2.6%
Cyfradd disgownt ar gyfer rhwymedigaethau cynllun	5.0%	5.0%
Rhagdybiaeth chwyddiant (CPI)	2.6%	2.6%

Mae'r tybiaethau marwolaethau presennol yn cynnwys ystyriaeth ddigonol ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol mewn cyfraddau marwolaethau. Y disgwyliadau oes tybiedig ar oedran ymddeol 65 yw:

	Ar 31 Gorffennaf 2024 Blwyddyn	Ar 31 Gorffennaf 2023 blwyddyn
<i>Yn ymddeol heddiw</i>		
Gwrywod	21.8	22.0
Benywod	24.1	24.2
 <i>Yn ymddeol mewn 20 mlynedd</i>		
Gwrywod	22.1	22.6
Benywod	24.9	25.3

Dyraniad Asedau

	2024 £'000	2023 £'000
Ecwiti	4,145	3,617
Eiddo	365	372
Bondiau'r Llywodraeth	481	467
Bondiau Corfforaethol	426	398
Credyd Aml Ased	317	281
Arian Parod	250	175
Arall	103	0
Cyfanswm	6,087	5,310

Mae'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	2024 £'000	2023 £'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	6,087	5,310
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(5,734)	(5,277)
Terfyn Asedau	(353)	(33)
Ased pensiynau net/(rhwymedigaeth) (Nodyn 17)	0	0

Nid yw'r ased FRS 102 wedi'i gydnabod gan nad yw'n adlewyrchu unrhyw nenfwd ased a gwnaed penderfyniad i beidio â chydabod un ar y sail nad oes digon o dystiolaeth y gellid ystyried bod yr ased yn adferadwy. Yr enillion actiwaraidd a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yw'r swm sydd ei angen i gadw cyflwyniad gwerth asedau Pensiwn "dim".

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Symiau wedi'u cynnwys mewn costau staff		
Cost gwasanaeth presennol	246	487
Cyfanswm	246	487
Cost ariannu		
Llog net taladwy/(derbyniadwy)	(8)	40
Llog ar ased heb ei gydnabod	2	
Cyfanswm	(6)	40
Symiau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall		
Elw ar asedau cynllun pensiwn	237	(140)
Enillion/(colledion) actiwaraidd oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	0	2,021
Enillion/(colledion) actiwaraidd oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	53	106
Enillion/(colledion) actiwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd	2	(376)
Enillion/(colledion) actiwaraidd oherwydd cyfyngu ar weddillion	(318)	(33)
Swm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall	(26)	1,578
Symudiad mewn buddiant diffiniedig net (rhwymedigaeth) yn ystod y flwyddyn		
	2024	2023
	£'000	£'000
Buddiant diffiniedig net (rhwymedigaeth)/ased yn y cynllun ar 1 Awst	0	(1,330)
Symudiad yn y flwyddyn:		
Cost gwasanaeth presennol	(246)	(487)
Cyfraniadau cyflogwr	266	279
Llog net ar y diffiniedig (rhwymedigaeth)	6	(40)
Ennill/(colled) actiwaraidd	(26)	1,578
Buddiant diffiniedig net (rhwymedigaeth) ar 31 Gorffennaf	0	0

Cysoni Asedau a Rhwymedigaethau

2024 2023

	£'000	£'000
Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau buddion diffiniedig		
Rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod	5,277	6,315
Cost gwasanaeth presennol	246	487
Cost gwasanaeth gorffennol	0	0
Cost llog	264	215
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y Cynllun	108	104
Profiad (enillion) a cholledion ar rwymedigaethau buddion diffiniedig	(55)	(1,751)
Amcangyfrif y buddion a dalwyd	(106)	(93)
Rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod	5,734	5,277
Cysoni Asedau		
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	5,310	4,985
Llog ar asedau'r cynllun	272	175
Elw ar asedau'r cynllun	237	(140)
Cyfraniadau cyflogwr	266	279
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y Cynllun	108	104
Amcangyfrif y buddion a dalwyd	(106)	(93)
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	6,087	5,310

23 Trafodion parti cysylltiedig

Ni nodwyd unrhyw drafodion y dylid eu datgelu fel trafodiad parti cysylltiedig.

Nid oes unrhyw Lywodraethwr wedi derbyn unrhyw dreuliau, taliad cydnabyddiaeth na thaliadau wedi'u hepgor gan y coleg na'i is-gwmnïau yn ystod y flwyddyn (2023: Dim).

24 Symiau a dalwyd fel asiant

Cronfeydd cymorth dysgwyr

	2024 £'000	Ailddatgan wyd 2023 £'000
Balans wedi'i ddwyn ymlaen	21	13
Grantiau Llywodraeth Cymru	201	243
Incwm arall	4	4
	<u>226</u>	<u>260</u>
Wedi talu i fyfyrwyr	(218)	(227)
Costau gweinyddu	(6)	(8)
Balans heb ei wario ar Orffennaf 31	<u>2</u>	<u>21</u>

Mae 2023 wedi'i ailddatgan i gydnabod llog a enillwyd ac i gyd-fynd â'r dychweliad i grantiau Cronfa Ariannol Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr yn unig. Yn y mwyafrif o achosion, dim ond fel asiant talu y mae'r coleg yn gweithredu. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r grantiau a'r taliadau cysylltiedig felly wedi'u heithrio o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr.